------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 2 Senedd a fideogynadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Mai 2025

Amser: 09.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru


# Hybrid

**Rhag-gyfarfod preifat** (09.15-09.30)

**Cyfarfod cyhoeddus** (09.30-11.00)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Gwaith Craffu Cyfnod 1 y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) - Sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

(09.30-11.00) (Tudalennau 1 - 29)

Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

Alex Walters, Dirprwy Lywydd, Trafnidiaeth Gyhoeddus ac Integredig - Llywodraeth Cymru

Hannah Dudley, Cyfreithwraig - Llywodraeth Cymru

Catrin Dellar, Pennaeth Diwygio Bysiau - Llywodraeth Cymru

Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) - Crynodeb o'r Bil (PDF 959KB)

Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), fel y'i cyflwynwyd (PDF 617KB)

Memorandwm Esboniadol (yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol) (PDF 3.1MB)

**Dogfennau atodol:**

Briff ymchwil - Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

## 3 Papurau i'w nodi (11.00)

### 3.1 Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

(Tudalennau 30 - 35)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â'r drefn arfaethedig ar gyfer craffu ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru).

Llythyr gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru at y Cadeirydd mewn perthynas â gwaith craffu Cyfnod 1 y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru).

Ymateb gan y Cadeirydd at y Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru mewn perthynas â gwaith craffu Cyfnod 1 y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

Llythyr gan y Cadeirydd at Transport for Greater Manchester mewn perthynas ag ymweliad diweddar y Pwyllgor â Manceinion (Saesneg yn unig)

### 3.2 Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030

(Tudalennau 36 - 38)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor ar Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030

### 3.3 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(Tudalennau 39 - 44)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig - 25 Mawrth 2025

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig - 13 Mawrth 2025

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd - 31 Mawrth 2025

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â chyfarfod Gweinidogol Amgylchedd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. - 15 Ebrill 2025

Llythyr gan Brif Weinidog Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Cytundeb Treftadaeth Geltaidd - 29 Ebrill 2025

**3.4 Craffu ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru**

(Tudalennau 45 - 50)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Syr David Henshaw, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn perthynas â'r canolfannau ymwelwyr yn Ynyslas, Coed y Brenin a Nant yr Arian

Ymateb gan Syr David Henshaw, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, at y Cadeirydd mewn perthynas â'r canolfannau ymwelwyr yn Ynyslas, Coed y Brenin a Nant yr Arian

Llythyr gan Jane Dodds AS at y Cadeirydd mewn perthynas â Chanolfan Ymwelwyr Ynyslas a rôl Wardeiniaid y Ganolfan Ymwelwyr (Saesneg yn unig)

Ymateb gan y Cadeirydd i Jane Dodds AS mewn perthynas â Chanolfan Ymwelwyr Ynyslas a rôl Wardeiniaid y Ganolfan Ymwelwyr

**3.5 Y Comisiwn Dŵr Annibynnol - Galwad am dystiolaeth**

(Tudalennau 51 - 52)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Comisiwn Dŵr Annibynnol mewn perthynas â galwad y Comisiwn Dŵr Annibynnol am dystiolaeth

**3.6 Ymateb i stormydd**

(Tudalennau 53 - 65)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Dŵr Cymru at y Cadeirydd mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i'r ymateb i stormydd

Ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd yn dilyn y sesiwn graffu ar 27 Mawrth

**3.7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26**

(Tudalennau 66 - 67)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at yr holl Gadeiryddion pwyllgorau mewn perthynas â chraffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

**3.8 Adfer safleoedd glo brig**

(Tudalennau 68 - 72)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i'r Cadeirydd mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i adfer safleoedd glo brig

**3.9 Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)**

(Tudalennau 73 - 77)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) sydd ar ddod

Ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Llywodraethiant, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) sydd ar ddod (Saesneg yn unig)

Llythyr dilynol gan y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â Bil yr

Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) sydd ar ddod

**3.10 Dŵr Cymru**

(Tudalennau 78 - 79)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Brif Weithredwr Dŵr Cymru at y Cadeirydd mewn perthynas â newidiadau yn arweinyddiaeth weithredol Dŵr Cymru

**3.11 Yr Awdurdod Safonau Hysbysebu**

(Tudalen 80)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan yr Awdurdod Safonau Hysbysebu at y Cadeirydd mewn perthynas â hysbysebu, rheoleiddio hysbysebion a'r dirwedd diogelu defnyddwyr yng Nghymru (Saesneg yn unig)

**3.12 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Data (Defnydd a Mynediad)**

(Tudalennau 81 - 82)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i'r Cadeirydd mewn perthynas ag adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o ddechrau'r cyfarfod ar 15 Mai 2025

(11.00)

## Cyfarfod preifat (11.00-12.00)

## 5 Trafod y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2

## 6 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Cynllunio a Seilwaith

(Tudalennau 83 - 98)

**Dogfennau atodol:**

Nodyn cyfreithiol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cynllunio a Seilwaith (Saesneg yn unig)

## 7 Trafod adroddiad drafft y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)

(Tudalennau 99 - 102)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2) (Saesneg yn unig)

## 8 Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) - trefn y broses ystyried yng Nghyfnod 2

(Tudalennau 103 - 104)

**Dogfennau atodol:**

Cyfnod 2: Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) - trefn y broses ystyried (Saesneg yn unig)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

21 Mawrth 2025

Annwyl Elin,

Y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Mawrth 2025, yn gofyn am farn Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar amserlen arfaethedig y gwaith o graffu ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru).

Yn anffodus, yn sgil amseriad eich gohebiaeth, nid yw'r Pwyllgor wedi cael cyfle i drafod eich llythyr na'r amserlen dan sylw[1]. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod ar 27 Mawrth, a bydd yn trafod ei ddull o graffu ar y Bil yn ystod y cyfarfod hwnnw.

Yn y cyfamser, gallaf nodi fy mod, mewn egwyddor, yn fodlon ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yng Nghyfnod 1, sef 25 Gorffennaf 2025, a'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau trafodion yng Nghyfnod 2, sef 7 Tachwedd 2025.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. /  We welcome correspondence in Welsh or English.

[1]Ni ddaeth eich gohebiaeth i law mewn pryd i'r Pwyllgor ei thrafod yn ystod ei gyfarfod ar 12 Mawrth. Roedd y Pwyllgor wedi penderfynu ers tro i beidio â defnyddio ei slot wrth gefn ar 19 Mawrth.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Tre-biwt
Caerdydd
CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Butetown
Cardiff
CF10 5FL

03442 640 670
Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Drwy e-bost yn unig: Llyr.Gruffydd@senedd.wales
Copi: SeneddClimate@senedd.wales

23 Ebrill 2025

Annwyl Llŷr,

**Craffu ar Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru): pryderon ynghylch y cyfnod ymgynghori**

Rwy'n ysgrifennu atoch i fynegi pryderon am y cyfnod ymgynghori byr ar gyfer y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) hir-ddisgwyliedig.

Mae'r dyddiad cau ar 13 Mai 2025 ond yn caniatáu cyfanswm o chwe wythnos ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, ac mae'n cynnwys tair gŵyl banc. Mae hon yn amserlen gyfyng iawn ar gyfer darn pwysig o ddeddfwriaeth. Nid yw'n rhoi digon o amser i grwpiau, gan gynnwys grwpiau pobl hŷn, a allai ddymuno ymateb, i gyfarfod a llunio ymatebion, yn enwedig pan fo'r Memorandwm Esboniadol â dros 200 o dudalennau.

Nid yw dyddiad cau presennol yr ymgynghoriad, sef 13 Mai 2025, yn rhoi llawer o amser i randdeiliaid roi'r sylw sydd ei angen ar y Bil. Mae pobl hŷn yn aml yn codi materion â mi sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, yn enwedig bysiau, ac rwy'n awyddus iawn i sicrhau bod digon o amser ar gyfer ymgynghoriad ystyrlon ar y Bil a bod llais pobl hŷn yn cael ei glywed.

Rwyf wedi derbyn gwahoddiad gan y Pwyllgor i ddarparu tystiolaeth lafar ar 22 Mai ond, yn y lle cyntaf, gofynnwyd i mi ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig erbyn dydd Mercher 30 Ebrill. Byddai hwn wedi bod yn derfyn amser byrrach fyth, sy'n cynnwys gwyliau banc y Pasg, yn enwedig gan y byddai angen i'm swyddfa ganiatáu amser cyfieithu er mwyn gallu darparu tystiolaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'n bosibl y bydd gwyliau banc a gwyliau blynyddol staff, sydd hefyd yn berthnasol i fy nhîm fy hun, yn effeithio ar wasanaethau cyfieithu. Nid yw'n afresymol i staff mewn llawer o sectorau fod wedi trefnu gwyliau blynyddol yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn.

Rwy'n falch bod fy swyddfa bellach wedi cytuno gyda'r Pwyllgor ar estyniad, ac y byddwn yn darparu tystiolaeth erbyn dyddiad cau cyffredinol yr ymgynghoriad, sef 13 Mai 2025.


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. //
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gwerthfawrogi nad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith oedd yn gyfrifol am bennu'r amserlen a bod Pwyllgor Busnes y Senedd wedi rhoi 11 wythnos i'r Pwyllgor ystyried ac adrodd ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), sy'n unol â'u harfer safonol.  Rwy'n deall bod amserlen gywasgedig o'r fath wedi arwain at gyfnod ymgynghori byr i adlewyrchu safbwyntiau'r ymatebwyr yn ystod sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru.

Yn fy marn i, fodd bynnag, nid yw 11 wythnos yn ddigon i ymgymryd â'r broses graffu, yn enwedig ar ddarn mor bwysig o ddeddfwriaeth ddrafft â Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru).  Nid yw'r amserlen yn caniatáu ar gyfer ymgynghori ystyrlon â rhanddeiliaid, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd ac yn enwedig pobl hŷn, ac ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith eu hystyried.

Rwy'n ymwybodol o adolygiad presennol y Pwyllgor Busnes o broses graffu'r Mesur.  Dylai'r adolygiad hwn ystyried yr amser sydd ei angen i gefnogi a galluogi ymgynghori dilys ac ystyrlon, yn ogystal ag ymgysylltu â grwpiau sydd â diddordeb mewn cynigion deddfwriaethol.  Dylai amserlenni yn y dyfodol hefyd ystyried gwyliau banc a ffactorau eraill a allai effeithio ar allu pobl i ymateb.  O ganlyniad, dylid gwneud newidiadau i ganiatáu mwy o amser ar gyfer ymgynghori ar yr amserlen ar gyfer craffu ar y ddeddfwriaeth.

Mae pobl hŷn yn aml yn dweud wrthyf eu bod eisiau llais yn o broses o wneud penderfyniadau, ond bod allgáu digidol yn aml yn rhwystr i hyn, ac mae'n bwysig cydnabod nad yw dros 100,000 o bobl 75 oed a hŷn yng Nghymru yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Felly, roeddwn yn falch bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn gwneud newidiadau i dudalen we'r ymgynghoriad i hyrwyddo'n gliriach y ffyrdd eraill y gall pobl ddweud eu dweud am y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn hytrach na llenwi'r ffurflen ar-lein.

Dylai adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r broses graffu hefyd arwain at weithredu i sicrhau bod yr holl drefniadau craffu yn y dyfodol yn cael eu gwella i sicrhau nad yw allgáu digidol yn cael ei ymgorffori'n anfwriadol. Mae'n hanfodol bod dinasyddion nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd, neu nad ydynt yn hyderus wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd, yn gallu cymryd rhan mewn ymgynghoriadau a dylai opsiynau nad ydynt yn ddigidol fod o'r un ansawdd.

Byddwn yn ddiolchgar iawn pe bai'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn ystyried fy sylwadau wrth iddynt baratoi i ymateb i adolygiad y Pwyllgor Busnes.

Rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â'r Pwyllgor fis nesaf a sicrhau bod safbwyntiau a phrofiadau pobl hŷn ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn cael eu clywed a'u hadlewyrchu yn y darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rhian Bowen-Davies**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Rhian Bowen-Davies,
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

2 Mai 2025

Annwyl Rhian,

Craffu ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru): pryderon ynghylch y cyfnod ymgynghori

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 23 Ebrill, yn mynegi pryderon ynghylch y cyfnod ymgynghori ar gyfer Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) (y Bil). Trafododd y Pwyllgor eich llythyr yn ei gyfarfod ar 30 Ebrill.

Rydym yn cydnabod y gallai pwnc y Bil fod o ddiddordeb arbennig i bobl hŷn, ac rydym yn awyddus i roi digon o gyfle i bob parti a chanddo fuddiant ymgysylltu â'r broses graffu. Fel rydych chi'n cydnabod yn eich llythyr, mae'n rhaid i'r Pwyllgor reoli ei waith craffu ar y Bil o fewn cyfyngiadau'r amserlen a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes. Mae gan y Pwyllgor 11 wythnos eistedd i ystyried y mater a chyflwyno adroddiad i'r Senedd, sydd yn unol â'r arfer safonol. Mae hyn yn golygu y bydd y cyfnod ymgynghori yn fyrrach nag a fyddai, er enghraifft, ar gyfer ymchwiliad polisi lle mae gan y Pwyllgor reolaeth dros faterion amserlennu.

Rydym yn cydnabod bod cyfnod ymgynghori o chwe wythnos yn debygol o godi heriau i'r rhai fydd am gyflwyno tystiolaeth. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i sicrhau bod y dystiolaeth hon ar gael mewn da bryd i'w phrofi gyda thystion, gan gynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, yn ystod sesiynau tystiolaeth lafar a gynhelir yn yr wythnosau nesaf.

Er bod y Pwyllgor yn gallu gofyn am estyniad i'r amserlen graffu, byddai gwneud hynny'n cael goblygiadau ar gyfer ei waith craffu ar Fil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

a’r Bil Llywodraethu Amgylcheddol, Egwyddorion Amgylcheddol a Thargedau Bioamrywiaeth sydd ar ddod.

Mae'r Pwyllgor wedi rhoi sylw i’r pryderon a godwyd gennych yn eich llythyr yn ei dystiolaeth i adolygiad y Pwyllgor Busnes o’r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod. Mae copi o'r adroddiad ynghlwm er gwybodaeth.

O ran darparu opsiynau nad ydynt yn ddigidol i unigolion gyflwyno tystiolaeth, mae'r tîm Clercio bob amser yn hapus i weithio gydag unigolion i sicrhau eu bod yn gallu cyflwyno tystiolaeth yn eu dewis fformat.

Unwaith eto, diolch i chi am roi o’ch amser i ysgrifennu at y Pwyllgor.

Yn gywir,

**Llyr Gruffydd AS**,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
–
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
–
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Stephen Rhodes,
Director of Bus - Transport for Greater Manchester

30 April 2025

Dear Stephen,

Committee Visit to Transport for Greater Manchester

I would like to extend my sincere thanks to you and your colleagues for hosting the Senedd's Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee during our recent visit to Manchester.

Members greatly valued the opportunity to hear directly from TfGM about the challenges of bus franchising and providing an integrated transport system in Greater Manchester. The presentations and site visits were highly informative and relevant to the Committee's work, particularly as we prepare for scrutiny of the Welsh Government's bus services reform Bill.

I would also like to record my appreciation for the professionalism and courtesy shown by your team throughout our visit. The arrangements were excellent, and Members felt warmly welcomed.

Please pass on our thanks to all those who contributed to the success of the visit.

Yours sincerely,



Llyr Gruffydd MS,
Chair, Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Eitem 3.2

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Dr Andrew Goodall CBE
Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

24 Mawrth 2025

Annwyl Dr Andrew Goodall,

Ynghylch: Staffio ac adnoddau yn Llywodraeth Cymru ar gyfer bioamrywiaeth ac adfer natur

Ysgrifennaf atoch yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Atal a Gwrthdroi Colli Natur.

Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at duedd bryderus o oedi wrth gyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i gefnogi ymateb Cymru i'r argyfwng natur. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau i ddiwygio dogfennau polisi natur allweddol ac i ddatblygu targedau statudol sy'n cyd-fynd â'r ymrwymiad bioamrywiaeth fyd-eang. Rydym yn pryderu y gall hyn fod oherwydd, neu'n rhannol oherwydd, diffyg capasiti ac adnoddau o fewn adran berthnasol Llywodraeth Cymru.

Oedi wrth adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol ar ôl pob etholiad cyffredinol. Wrth i ni agosáu at ddiwedd pedwaredd flwyddyn y Chweched Senedd, nid yw adolygiad wedi'i gwblhau eto.

Yn ein hadroddiad, gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r rheswm dros yr oedi o ran cwblhau'r adolygiad o'r Polisi Adnoddau Naturiol.

Yn ei hymateb, datganodd Llywodraeth Cymru: *"Yn dilyn etholiad cyffredinol y Senedd yn 2021, penderfynodd Llywodraeth Cymru ohirio'r adolygiad o'r Polisi Adnoddau Naturiol. Gwnaed y penderfyniad hwn er mwyn i Lywodraeth Cymru allu canolbwyntio ar gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, yn cynnwys Biliau / Deddfau (cyfanswm o 4) ac ystod o gamau a fyddai'n arwain at effaith gadarnhaol ar adnoddau naturiol."*

## Oedi wrth gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur

Bwriad y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yw nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030. Ddwy flynedd ar ôl ymrwymo i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang, nid yw'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig wedi'i gyhoeddi eto.

Yn ein hadroddiad, gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam na chyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu diwygiedig ym mis Mai 2024, fel y rhagwelwyd.

Yn ei hymateb, datganodd Llywodraeth Cymru: *"O gofio'r amserlen ddeddfwriaethol dynn ar gyfer cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Llywodraethiant, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) a'i elfennau cysylltiedig, mae'r swyddogion wedi defnyddio'u hamser mewn modd sy'n rhoi blaenoriaeth i'r amserlen hollbwysig hon. Er gwaethaf cyfyngiadau o ran adnoddau a gallu, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gydweithredu ledled y DU i ddatblygu Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol ar gyfer y DU, a gyhoeddwyd ar 26 Chwefror 2025."*

## Oedi wrth ddatblygu targedau bioamrywiaeth

Roeddem yn poeni na fydd targedau'n cael eu gosod tan 2029 – flwyddyn cyn bod angen cyrraedd targedau Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang 2030, gan gynnwys y targed allweddol o 30 erbyn 30. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi gosod targedau bioamrywiaeth ar gyfer Lloegr, ac mae mwy o gynnydd wedi'i wneud yn yr Alban hefyd nag yng Nghymru.

Yn 2023, rhoddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd sicrwydd i'r Pwyllgor hwn fod gwaith ar gwmpasu targedau priodol eisoes yn mynd rhagddo.

Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet na fyddai targedau ar waith tan o leiaf 36 mis ar ôl i'r Bil Llywodraethu Amgylcheddol gael y Cydsyniad Brenhinol. Y rhesymeg dros hyn yw bod *"creu'r is-ddeddfwriaeth yn unig yn cymryd o leiaf 12 mis (o'r cam ymgynghoriad hyd at y cam cyflwyno), yn dibynnu ar y slot a ddyrennir yn y cyfarfod llawn."* O ystyried yr amserlenni hyn, roeddem yn amau bod angen oedi o 36 mis.

Yn olaf, mae amseriad y Bil yn golygu mai mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd gweithredu ei ddarpariaethau. Mae hyn yn codi pryder sylfaenol na fydd Llywodraeth bresennol Cymru yn gallu gweithredu ei blaenoriaethau yn ystod ei thymor llywodraeth. Yn dibynnu ar gyfansoddiad Llywodraeth nesaf Cymru, gall hyn olygu na fydd yr ymrwymiadau hyn byth yn cael eu cyflawni.

## Yr angen i adolygu adnoddau staffio

O ystyried yr oedi mawr a amlinellwyd uchod, gwnaethom yr argymhelliad a ganlyn:

> *"Yng ngoleuni'r oedi sylweddol o ran datblygu targedau, ac o ystyried bod hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad brys o'r adnoddau a ddyrennir i*

*adrannau sy'n ymdrin â'r maes polisi hwn gyda'r nod o fodloni ei hun bod y rhain yn ddigonol. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r adolygiad o fewn tri mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn."*

Gwrthodwyd yr argymhelliad hwn ar y sail bod staffio yn fater i'r Ysgrifennydd Parhaol, gan weithio "o fewn y gyllideb a ddyrannwyd gan Weinidogion ac yn unol â'u blaenoriaethau". Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn awgrymu'n gryf fod prinder staff a chyfyngiadau ar adnoddau yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiadau.

O ystyried bod mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth wedi'i nodi fel blaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro sut mae adnoddau staffio wedi'u dyrannu a'u haddasu i sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu cyflawni. Byddwn yn gwerthfawrogi eich ymateb i'r cwestiynau a ganlyn:

1. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael ag aelodau'r cabinet am ddyrannu adnoddau staffio yn y maes polisi hwn?
2. Allwch chi roi manylion am y lefelau staffio a neilltuwyd i helpu i ddatblygu targedau bioamrywiaeth ers dechrau'r tymor hwn yn y Senedd? Sut mae hyn wedi newid dros amser?
3. Pa gyfyngiadau penodol ar adnoddau sydd wedi effeithio ar hynt y gwaith o ddatblygu targedau bioamrywiaeth, a pha gamau sydd wedi'u cymryd i liniaru'r cyfyngiadau hyn?
4. O ystyried bod tîm ymroddedig bellach wedi'i sefydlu, pa gapasiti ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu i sicrhau bod y targedau'n cael eu datblygu'n amserol?
5. Pa brosesau sydd ar waith i asesu a yw dyraniadau staffio o fewn adrannau perthnasol yn ddigonol i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru?
6. Pa fecanweithiau sy'n bodoli i sicrhau bod cynllunio'r gweithlu yn eich adran yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Llywodraeth ac yn atal prinder adnoddau rhag rhwystro datblygiadau polisi allweddol yn y dyfodol?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. / We welcome correspondence in Welsh or English.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0126/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Mawrth 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi y bydd cyfarfod Gohirio y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a a oedd i fod i gael ei gynnal yn wreiddiol ar 10 Mawrth nawr yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Mae disgwyl i'r cyfarfod ganolbwyntio ar yr economi gylchol, clefydau anifeiliaid, trafodaeth ar gytundeb iechydol a ffytoiechydol posibl rhwng y DU a'r UE, Labelu 'Not for EU', ac effaith y Ddeddf Farchnad Fewnol ar sector EFRA. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y trafodaethau, a bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ôl y cyfarfod.

Rydym hefyd yn cynnal cyfarfod pedwarochrog ar ffiniau gyda'r Farwnes Hayman ar yr un diwrnod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@gov.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0135/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Mawrth 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y bwriedir am 31 Mawrth wedi'i ohirio. Disgwylir i'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal ar 12 Mai.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@gov.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0137/25

Mike Hedges MS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llŷr Gruffydd MS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru

31 Mawrth 2025

Annwyl Mike, Llŷr,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, roeddwn i eisiau adrodd ar gyfarfod diweddaraf y Grŵp Rhyngweinidogol Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd, a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2025. Cadeiriwyd y cyrfarfod gan Andrew Muir MLA, Gweinidog Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yn y Weithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Mynychwyd y cyfarfod hefyd gan Michael Shanks MP (MS), Gweinidog Ynni, Adran Diogelwch Ynni a Sero Net yn Llywodraeth y DU, Dr Alasdair Allan MSP, Gweinidog Gweithredu Hinsawdd Dros Dro yn Llywodraeth yr Alban, a Caoimhe Archibald MLA, Gweinidog yr Economi yn y Weithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig sy'n crynhoi'r trafodaethau. Byddaf yn cadeirio'r cyfarfod Grŵp Rhyngweinidogol nesaf yng Nghaerdydd, yr hyn yr wyf yn disgwyl y bydd yn digwydd yn gynnar ym mis Mai ac yn canolbwyntio ar Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Yn ychwanegol, cytunwyd y Grŵp i archwilio'r posibilrwydd o gyfarfodydd brys i drafod datgarboneiddio gwres mewn adeiladau a chyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar y seithfed Gyllideb Garbon y DU. Rhannaf i'r manylion unwaith y byddant yn cael eu cadarnhau.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0182/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Ebrill 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i roi gwybod i chi y bydd Cyngor Prydeinig Gwyddelig (BIC) yn cynnal cyfarfod Gweinidogion yr Amgylchedd ar 8 Mai. Byddaf yn cynrychioli’r Llywodraeth Cymru.

Yn y cyfarfod rydym yn disgwyl trafod gweithgareddau'r Sector Gwaith Amgylcheddol rhwng 2020 a 2024, sy'n cwmpasu Rhywogaethau Anfrodorol Goresgynnol, Tasglu Hornet Asiaidd, sbwriel morol, yr amgylchedd morol ac addasu i'r hinsawdd. Byddwn hefyd yn trafod y sector gwaith yn y dyfodol a chynllun gwaith ar gyfer gwaith ar rywogaethau goresgynnol.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y trafodaethau, a bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ôl y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@gov.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

29 Ebrill 2025

Annwyl Mike,

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Adroddiad Blynyddol y Cytundeb Treftadaeth Geltaidd**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod Treftadaeth Geltaidd – Cytundeb Cydweithio Cernyw-Cymru: Adroddiad Blynyddol 2023-2024 wedi'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Cernyw ac mae ar gael yma.

Llofnodwyd Treftadaeth Geltaidd – Cytundeb Cydweithio Cernyw-Cymru gan Gyngor Cernyw a Llywodraeth Cymru ar 17 Gorffennaf 2023. Mae'r Cytundeb, sy'n weithredol am bum mlynedd i gychwyn, yn adeiladu ar y trefniadau gweithio mewn partneriaeth sydd eisoes wedi'u sefydlu rhwng Cyngor Cernyw a Llywodraeth Cymru drwy annog rhagor o gydweithio a dealltwriaeth mewn meysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr ac er budd y ddwy ochr. Cafodd pedwar maes sy'n rhoi cyfle sylweddol i feithrin y berthynas rhwng Cernyw a Chymru eu nodi. Roedd y meysydd hynny fel a ganlyn:

a) Darparu tai cynaliadwy
b) Cyflawni Sero Net
c) Economïau gwledig ffyniannus.
d) Dathlu iaith a diwylliant

Mae'r Adroddiad Blynyddol cyntaf hwn, sydd wedi'i gyd-gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Cernyw, yn berthnasol i gyfnod hwy na'r arfer (Gorffennaf 2023-Rhagfyr 2024), er mwyn cynnwys cyfnod cychwyn o chwe mis.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf hefyd yn anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai; a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Eluned Morgan**

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Syr David Henshaw, Cadeirydd
Cyfoeth Naturiol Cymru

25 Mawrth 2025

Annwyl Syr David,

Diolch am ddod i'n sesiwn graffu flynyddol ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn dilyn y cyfarfod, mae rhywun wedi cysylltu â mi, gan ofyn cwestiynau yr wyf yn gobeithio y gallwch eu hateb.

Dyma'r materion dan sylw:

Yn gyntaf, yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch ddweud mai tua £1 miliwn y flwyddyn oedd y gost o redeg y canolfannau ymwelwyr yn Ynyslas, Coed y Brenin a Nant yr Arian. Mae'r ohebiaeth yr wyf wedi'i chael yn honni bod modd dangos nad yw Ynyslas yn gwneud colled.

Yn ail, fel yr ydych wedi cydnabod, nid yw wardeniaid y ganolfan ymwelwyr yn gyfrifol am faterion manwerthu ac arlwyo yn unig. Cefais wybod bod disgrifiad swydd a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn profi bod cylch gorchwyl staff y ganolfan ymwelwyr yn llawer ehangach na manwerthu ac arlwyo. Roedd y dyletswyddau swyddogol yn cynnwys sicrhau bod y cyhoedd yn cael mynediad diogel at y safle, ymhlith llawer o bethau eraill. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi sicrwydd y bydd y safle a'r llwybrau'n parhau i fod ar agor i'r cyhoedd. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith eich bod yn cymryd rhan mewn proses i sicrhau bod yr holl swyddogaethau statudol a hanfodol yn cael eu cyflawni gan staff eraill. Fodd bynnag, mae'r person a anfonodd yr ohebiaeth ataf yn awgrymu na fyddai neb yn cynnal y mynediad hwnnw o dan y cynigion dan sylw, gan fod y swyddogaeth rheoli tir yn cael ei chyflawni gan un person yn unig, sy'n gofalu am 2,000 hectar o dir. Cefais wybod hefyd mai'r wardeniaid sy'n sicrhau bod safleoedd nythu'r cwtiaid torchog yn cael eu diogelu gan ffensys.

Yn olaf, mae pryderon wedi'u codi gyda mi ynghylch diogelwch y cyhoedd, gan fod y safle'n cynnwys traeth sydd â baner goch oherwydd bod cerrynt y llanw yn gryf, oherwydd bod sugndraeth yno, ac oherwydd bod ordnans heb ei ffrwydro o'r Ail Ryfel Byd yn cael ei ddadorchuddio'n rheolaidd yno ac yn cael ei danio'n ddiogel.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi sylw i’r materion hyn a godwyd gyda mi. Byddai’n ddefnyddiol pe gallech ymateb i erbyn **dydd Mawrth 22 Ebrill 2025**.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau a’m cyd-aelodau o’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. /  We welcome correspondence in Welsh or English.

Ein Cyf: CH25-015

Llyr Gruffydd MS
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith Senedd Cymru
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Drwy e-bost yn unig: seneddhinsawdd@senedd.cymru

15 Ebrill 2025

Annwyl Llyr

## Canolfan Ymwelwyr Ynyslas

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mawrth ynghylch Canolfan Ymwelwyr Ynyslas. Byddaf yn delio â'ch ymholiadau yn eu tro.

Rydym wedi sicrhau bod cyfrifon ein Canolfan Ymwelwyr ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 ar gael i'r cyhoedd ar ein tudalen we Hwb Ymgynghori. Maen nhw'n dangos bod Canolfan Ymwelwyr Ynyslas wedi gwneud colled o £72,976 am y flwyddyn honno.

Mae ein timau Rheoli Tir a Masnachol yn cydweithio i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu ein gwasanaethau statudol yn y Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG) yn y tymor hir, yn unol â ffocws ein Hachos dros Newid ar ein hamcanion strategol. Er mai dim ond un unigolyn sy'n gweithio fel swyddog GNG yn Ynyslas, mae tîm ehangach o arbenigwyr cadwraeth a rheoli tir yn ei gefnogi a bydd yn parhau i wneud hynny.

Nawr bod ein gwasanaethau canolfan ymwelwyr wedi dod i ben, bydd y Warchodfa Natur Genedlaethol yn parhau i gael ei rheoli fel y Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol eraill rydym yn eu rheoli ledled Cymru, lle nad oes darpariaeth canolfan ymwelwyr.


Mae ymwelwyr â'n holl safleoedd, gan gynnwys Ynyslas, yn gyfrifol am eu diogelwch eu hunain yn ogystal â diogelwch unrhyw blant ac anifeiliaid sydd gyda nhw yn ystod eu hymweliad. Mae Ynyslas yn draeth baner goch ac wedi'i labelu'n glir felly; mae arwyddion yn cael eu gosod yn amlwg ar hyd y traeth a'r aber yn hysbysu'r cyhoedd o'r peryglon. Mae cyngor diogelwch hefyd ar gael i ymwelwyr ar ein gwefan, i'r rhai sy'n bwriadu ymweld ag Ynyslas.

O ran ordnans, mae arwyddion rhybudd yn eu lle o amgylch safle Ynyslas ynghyd â lluniau o'r mathau o ordnans sydd wedi eu darganfod, yn cynghori pobl i gysylltu â'r gwasanaethau brys os ydynt yn dod ar draws rhywbeth tebyg. Os rhoddir gwybod am ordnans, bydd ein tîm Digwyddiadau yn trefnu i gau'r ardal a bydd yn cael ei drin fel digwyddiad â blaenoriaeth. Mae rota digwyddiadau 24/7 i sicrhau ymateb cyflym, pe bai angen presenoldeb neu gamau eraill.

Diolch eto am eich llythyr. Rwy’n gobeithio fy mod wedi gallu mynd i’r afael â’ch pryderon.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,



Syr David Henshaw
**Cadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Chair, Natural Resources Wales**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg heb i hynny arwain at oedi.
Correspondence in Welsh is welcomed, and we will respond in Welsh without it leading to a delay.

**Jane Dodds**
Aelod o'r Senedd dros
Canolbarth a Gorllewin Cymru
—
Member of the Senedd for
Mid and West Wales

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.cymru
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.wales

0300 200 6565
@janedoddswld
@DoddsJane
/JaneDoddsWLD

**Dyddiad | Date: 31.03.2025**
**Pwnc | Subject: Closure of Ynyslas Visitor Centre**

Annwyl Llyr,

I am writing to you as the Chair of the CCEI Committee to address a query made by a constituent following your meeting with NRW during the week beginning 10th March.

As you may be aware, the constituent has raised concerns that the work of Visitor Centre Wardens encompasses a wide range of duties beyond retail and catering. They argue that the closure of Ynyslas would be detrimental to the wildlife in the area. The constituent, representing the group Save Our Centre - Ynyslas - Achubwch Ein Canolfan, has requested an urgent meeting with the CCEI Committee.

Could you please reassure the group that the visitor centres are a priority for the Committee and that you will meet with them as soon as possible?

Yn gywir,

Jane Dodds

**Jane Dodds MS/AS**
Member of the Senedd for Mid and West Wales
Aelod o'r Senedd dros Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Jane Dodds AS
Aelod o'r Senedd dros Canolbarth a Gorllewin Cymru

30 Ebrill 2025

Annwyl Jane,

Diolch am eich llythyr ynghylch pryderon a godwyd gan etholwr am ddyfodol Canolfan Ymwelwyr Ynyslas a rôl ehangach Wardeniaid y Ganolfan Ymwelwyr.

Fel Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, rwyf eisoes wedi cael gohebiaeth ar y mater hwn. Rwyf wedi ei godi'n uniongyrchol mewn gohebiaeth â Chadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru; mae'r ymateb ynghlwm er gwybodaeth.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod cryfder y teimladau yn y gymuned leol a phwysigrwydd canolfannau ymwelwyr fel Ynyslas, ond mae'n bwysig nodi nad yw'r Pwyllgor yn gallu ymyrryd ym manylion penderfyniadau gweithredol cyrff cyhoeddus fel Cyfoeth Naturiol Cymru.

Hoffwn eich sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau i fod â diddordeb mawr yn rôl a gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys o ran mynediad i fyd natur a rheoli safleoedd ymwelwyr allweddol. Cyn hir, bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad ar ei waith craffu blynyddol ar Cyfoeth Naturiol Cymru a fydd yn ymdrin â'r materion hyn yn fanwl.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Syr Jon Cunliffe
Cadeirydd y Comisiwn Dŵr Annibynnol

26 Mawrth 2025

Annwyl Syr Jon,

Y Comisiwn Dŵr Annibynnol – Galwad am Dystiolaeth

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 5 Mawrth 2025, yn tynnu sylw at alwad y Comisiwn Dŵr Annibynnol am dystiolaeth.

Nid yw Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor) mewn sefyllfa i ymateb i'r cwestiynau a nodir yn yr alwad am dystiolaeth. Fodd bynnag, roeddwn yn meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol rhannu gyda chi ein *Hadroddiad ar orlifoedd stormydd yng Nghymru* (Mawrth 2022) a'n *Hadroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru* (Chwefror 2024). Gobeithiwn y byddant o ddefnydd ichi.

Mae'r materion a godwyd yn yr adroddiadau uchod, a all fod yn arbennig o berthnasol i waith y Comisiwn, wedi'u crynhoi isod.

Fframwaith Cyffredinol ar gyfer Rheoli Dŵr

*Mesur ac asesu'r amgylchedd dŵr*

O ran monitro ac adrodd ar iechyd yr amgylchedd dŵr, yn ein *Hadroddiad ar orlifoedd stormydd yng Nghymru* tynnwyd sylw at yr angen i wella trefniadau monitro presennol gyda'r nod o ddeall yn well effaith gollyngiadau carthion ar ddŵr derbyn. Gwnaethom alw am ystyried rôl bosibl gwyddoniaeth dinesydd o fewn y trefniadau gwell hyn.

Amcanion Polisi Cyhoeddus y Diwydiant Dŵr

*Diogelu'r amgylchedd*

Fel yr amlinellir yn ein *Hadroddiad ar orlifoedd stormydd yng Nghymru*, mae lefel hyder y cyhoedd yn y drefn rheoleiddio a gorfodi ar gyfer gorlifoedd stormydd yn isel. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau

bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gallu ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i ddigwyddiadau llygredd, ac i fod yn barod i gymryd camau gorfodi pan fydd trwyddedau'n cael eu torri. Codwyd pryder am allu CNC i gyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau statudol yn briodol oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau.

O ran camau gorfodi, mae ein *Hadroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru* yn nodi bod CNC wedi cael ei feirniadu am ei ymagwedd flaengar at orfodi a'i amharodrwydd amlwg i erlyn Dŵr Cymru am dorri trwyddedau. Er bod erlyniad ar gael i CNC, a hynny'n gwbl briodol, rydym yn nodi'n glir na ddylid ei ystyried fel y canlyniad terfynol.

## Perchnogaeth

### *Y model nid-er-elw*

Fel yr amlinellir yn ein *Hadroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru*, mae model 'nid-er-elw' y cwmni yn ei osod ar wahân i gwmnïau dŵr eraill yng Nghymru a Lloegr, sy'n eiddo preifat. Mae Dŵr Cymru yn elwa ar beidio â gorfod talu difidendau i gyfranddalwyr. Yn hytrach, gellir defnyddio unrhyw wargedion ariannol i gyflymu buddsoddiad a darparu cyllid ychwanegol ar gyfer tariffau cymdeithasol. Serch hynny, ni ddylai'r model 'nid-er-elw' ddod yn esgus dros danberfformio. Er nad oes yr un model yn berffaith, mae awgrym Ofwat mewn tystiolaeth gerbron y Pwyllgor o 'ddiffyg atebolrwydd' sy'n deillio o statws 'nid-er-elw' Dŵr Cymru yn destun pryder. Gwnaethom egluro wrth Dŵr Cymru ein bod yn disgwyl i drefniadau llywodraethu mewnol fod yn ddigon cadarn i ddwyn swyddogion gweithredol cwmnïau i gyfrif ac i ysgogi gwelliannau mewn perfformiad.

Mae'r Pwyllgor yn aros am ganfyddiadau eich adolygiad gyda diddordeb.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Dŵr Cymru Welsh Water

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

Llyr Gruffydd MS
Chair, Climate Change, Environment & Infrastructure Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN
By email: seneddclimate@senedd.wales

31st March 2025

Annwyl Llyr,

Thank you for the opportunity to give evidence recently to the Senedd's Climate Change, Environment and Infrastructure Committee on the impact of Storms Bert and Darragh on Welsh Water's operations. During the session, I committed to providing the Committee with more information on the adoption of nature-based solutions by Welsh Water.

**Nature-based solutions**
Nature-based solutions offer a way to deliver broader benefits from investments, providing 'best value' by considering factors such as community wellbeing, greenhouse gas emissions, and biodiversity.
We appreciate the recent emphasis placed on nature-based solutions in the Welsh Government's Strategic Policy Statement and Ofwat's PR24 Final Methodology which has allowed us to adopt such solutions in AMP8 as part of our final Business Plan for 2025-30. Our goal is to scale up the use of nature-based solutions over the next AMP periods. The planned environmental investment programme will have a significantly greater positive impact on Wales if it is delivered primarily through nature-based solutions rather than traditional 'grey' or 'concrete' solutions.

We were early adopters of nature-based solutions in the water industry, notably with the RainScape approach designed to slow down and mitigate stormwater flows into the sewers in the Llanelli area, which were then overflowing into the Loughour Estuary. We invested £115 million across Llanelli and Gowerton in our innovative RainScape work between 2012 and 2020, completing 36 RainScape projects in the Llanelli. This involved laying around 14 miles of new pipework and kerb drainage, tunnelling just under one mile underground to create rainwater sewers and planting almost 10,000 plants and trees in swales, planters and basins. This has helped ensure that we no longer pump and treat around 1.5m3 of rainwater every year.

Having learned from the international examples of surface water schemes in Malmö, (Sweden) and Portland (Oregon, USA), we have created our own range of surface water or RainScape solutions that have been used in Llanelli. These include:

- **Basins and Planters:** Shallow landscaped basins that capture the surface water runoff from roofs and road and store and treat the surface water. The water filters through the plants within the basin, removing contaminants before being released into the soil or the sewer network. These can be small, and fitted to individual downpipes, or they can be larger, and used within road schemes.
- **Swales:** Long, shallow, landscaped channels that reduce the speed of surface water - cleaning it and where possible allowing it to gradually infiltrate into the soil. Where it is not possible for the water to infiltrate the water into the ground, the swales gradually return the water into the sewer network at a slower rate.
- **Porous paving:** Paving that is designed to allow surface water to pass through it, rather than over it into nearby drains. Porous paving comes in a variety of appealing designs.

- **Filter strip:** Filter strips are strips of ground where water running off a site can pass through it, allowing some or all of it to soak away. The rest often enters a swale or another sustainable urban drainage system.
- **Grass channels:** These are strips of grass that can be installed in side streets and back alleys of terraces to provide a permeable surface for water to soak through.
- **Geocellular storage:** Geocellular systems can be used to control and manage surface water runoff either as a soakaway or as a storage tank. These can be installed beneath roads and kerbs and help to reduce the speed at which surface water enters the sewer network.

Another example of how we are using nature-based solutions can be seen in Pont-y-Felin near Pontypool where the approach is being used to address the impact of a storm overflow (SO) on the nearby Afon Lwyd. The is the first of its kind in the UK and the solution consists of storm discharges first passing through a new mechanical screen after which flows gravitate first through a series of aerated reed beds and then through constructed wetlands to provide natural treatment before releasing to the river. The £13 million investment will deliver a wetland habitat for aquatic life, enhanced biodiversity, new woodland areas and improved public amenity through footpaths and natural play spaces.

On this occasion, a traditional 'grey' solution would have meant increasing the capacity of storm water storage to 22,000 m3. At a financial cost of £56m and a whole life carbon cost of 3000 tonnes CO2e, this was unaffordable and unsustainable. This solution would not only remove harmful pollutants from the CSO and improve river water quality but would also provide local amenity and biodiversity benefits. It is a great example of focussing on tackling environment harm than just storm overflow "spill" numbers.

Our experience with RainScape and other projects therefore shows that nature-based solutions can deliver major benefits and greater overall value for our customers and the environment. However, they do take considerable time to develop and implement. While they can provide good value and resilience over the long term, they may be more expensive initially. Furthermore, they are often more complex and, in some cases, involve greater uncertainty of outcome. The temptation for companies and regulators alike is, therefore, to default to traditional grey solutions. This needs to be avoided if we are to meet our commitments to achieving Net Zero.

There is real opportunity to use nature-based solutions in supporting the work in reducing Phosphorous the biggest cause of SAC rivers in Wales not meeting the required water quality.

To pursue opportunities for nature-based and collaborative solutions, we will continue with major trials and engage in discussions with regulators to develop regulatory guidance that complies with Welsh policy and, in some cases, provides a counterpart to regulatory guidance already enabled in England.

We are also hosting a Rivers Improvement Codelivery event alongside Afonydd Cymru and Wildlife Trusts Wales on 10th April for which the Deputy First Minister will be a keynote speaker. The main objective is to identify specific projects, locations and nature-based solutions that can be implemented in partnership, and to understand enablers and barriers to this type of collaboration. We will provide information on the next five years of our planned capital investment, and we are seeking ideas from various organisations to develop practical solutions and determine how we can achieve more for the environment with our planned investment and ways to enable nature's recovery.

Over the longer term, we expect nature-based solutions to represent a much larger proportion of our investment plans as the evidence regarding the costs, resilience, benefits, and risks of different approaches becomes stronger.

I hope this information is useful but should Committee Members wish to visit one of these sites or if you need further detail, please do not hesitate to get in touch.

Yours sincerely,



**Ian Christie**
**Managing Director Water, Asset Planning and Capital Delivery**

Dŵr Cymru
Welsh Water

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Trwy e-bost: seneddclimate@senedd.wales

31 Mawrth 2025

Annwyl Llŷr,

Diolch i chi am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth gerbron Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ar effaith Stormydd Bert a Darragh ar weithrediadau Dŵr Cymru yn ddiweddar. Yn ystod y sesiwn, fe addewais i ddarparu rhagor o wybodaeth am sut mae Dŵr Cymru'n mabwysiadu atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer y Pwyllgor.

**Atebion sy'n seiliedig ar natur**
Ffordd o ddarparu buddion ehangach o fuddsoddiadau, a darparu 'gwerth gorau' trwy gymryd ffactorau fel llesiant y gymuned, allyriannau nwyon tŷ gwydr a bioamrywiaeth i ystyriaeth yw atebion sy'n seiliedig ar natur. Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r pwyslais a roddwyd ar atebion sy'n seiliedig ar natur yn Natganiad Polisi Strategol diweddar Llywodraeth Cymru a Methodoleg Derfynol Ofwat ar gyfer PR24, sydd wedi caniatáu i ni fabwysiadu atebion o'r fath yn AMP8 yn rhan o'n Cynllun Busnes ar gyfer 2025-30. Ein nod yw ehangu'r defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur dros gyfnodau'r AMPau nesaf. Caiff y rhaglen buddsoddi amgylcheddol sydd ar y gweill effaith fwy llesol o lawer yng Nghymru os yw'n caiff ei chyflawni trwy atebion sy'n seiliedig ar natur yn bennaf, yn hytrach na thrwy atebion 'llwyd' neu 'goncrit' traddodiadol.

Fe fuom ni'n flaengar yn y diwydiant dŵr wrth fabwysiadu atebion sy'n seiliedig ar natur, yn arbennig yn achos GlawLif, ein dull o weithredu a ddyluniwyd i arafu a lliniaru llif dŵr storm i mewn i'r carthffosydd yn ardal Llanelli, oedd yn rhyddhau wedyn i aber afon Llwchwr. Fe fuddsoddon ni £115 miliwn yn ein gwaith GlawLif arloesol ar draws Llanelli a Thre-gŵyr rhwng 2012 a 2020, gan gwblhau 36 o brosiectau GlawLif i gyd. Roedd hyn yn cynnwys gosod tua 14 milltir o bibellau newydd a chyrbiau draenio, twnelu bron i filltir o dan y ddaear i greu carthffosydd dŵr glaw, a phlannu bron i 10,000 o blanhigion a choed mewn pantiau, cafnau plannu a basnau. Mae hyn wedi helpu i sicrhau nad oes angen i ni bwmpio a thrin tua 1.5m$^3$ o ddŵr glaw bob blwyddyn mwyach.

Ar ôl dysgu o esiamplau rhyngwladol o gynlluniau dŵr wyneb ym Malmö (Sweden), a Portland (Oregon, UDA), fe greon ni ein hatebion ein hunain i ddelio â dŵr wyneb, sef yr atebion GlawLif a ddefnyddiwyd yn Llanelli. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Basnau a Chafnau Plannu:** Basnau bas sy'n asio i'r dirwedd sy'n casglu'r dŵr ffo sy'n dod oddi ar doeau a ffyrdd, gan storio a thrin y dŵr wyneb. Mae'r dŵr yn hidlo trwy'r planhigion o fewn y basn, gan dynnu'r halogyddion, cyn cael ei ryddhau i'r pridd neu i'r rhwydwaith o garthffosydd. Gall y rhain fod yn fach, a chael eu gosod ar bibellau draenio unigol, neu'n fwy i'w defnyddio ar gynlluniau ffyrdd.
- **Pantiau:** Sianeli hir a bas wedi eu tirweddu sy'n arafu llif y dŵr wyneb – gan ei lanhau a gadael iddo ymdreiddio'n raddol i'r pridd lle bo modd. Os nad oes modd i'r dŵr hidlo i lawr i'r ddaear, mae'r pantiau'n dychwelyd y dŵr yn raddol bach i'r rhwydwaith o garthffosydd.

- **Palmentydd hydraidd:** cerrig palmant sydd wedi eu dylunio i ganiatáu i ddŵr wyneb basio drwyddynt yn hytrach na drostynt ac i mewn i ddraeniau cyfagos. Mae palmentydd hydraidd yn dod mewn amrywiaeth o ddyluniadau deniadol.
- **Lleiniau hidlo:** lleiniau o dir lle mae dŵr sy'n llifo oddi ar safle'n gallu pasio drwyddynt gan ganiatáu i rywfaint, neu'r holl ddŵr hidlo i'r ddaear. Mae'r gweddill yn aml yn mynd i bant neu system draenio trefol gynaliadwy arall.
- **Sianeli glaswellt:** Lleiniau o laswellt y gellir eu gosod mewn strydoedd ymyl a lonydd cefn terasau o dai er mwyn darparu arwyneb hydraidd i'r dŵr hidlo drwyddo.
- **Storfeydd geogellol:** Gellir defnyddio systemau geogellol i ffrwyno a rheoli dŵr wyneb ffo, naill ai ar ffurf ffosydd cerrig neu danciau storio. Gellir gosod y rhain o dan ffyrdd a chyrbiau ac maen nhw'n helpu i arafu llif y dŵr wyneb i mewn i'r rhwydwaith o garthffosydd.

Gellir gweld esiampl arall o sut rydyn ni'n defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur ym Mhont-y-felin ger Pont-y-pŵl, lle'r ydyn ni'n defnyddio'r dull yma o weithredu i fynd i'r afael ag effaith gorlif storm (ISO) ar Afon Lwyd sydd gerllaw. Hwn yw'r fenter gyntaf o'i math yn y DU ac mae'r ateb yn cynnwys pasio gollyngiadau storm trwy sgrin fecanyddol newydd yn gyntaf, cyn i'r llif lifo'n naturiol trwy gyfres o welyau brwyn awyredig ac ymlaen i wlypdiroedd adeiledig lle er mwyn i'r dŵr gael triniaeth naturiol cyn ei ryddhau i'r afon. Bydd y buddsoddiad £13 miliwn yma'n creu cynefin gwlypdir ar gyfer bywyd dyfrol, gan gyfoethogi bioamrywiaeth, creu ardaloedd coetir newydd, a gwella amwynder cyhoeddus ar ffurf llwybrau cerdded a mannau chwarae naturiol.  Y tro yma, byddai ateb 'llwyd' traddodiadol wedi golygu cynyddu capasiti'r storfa dŵr storm i 22,000m$^3$. Gyda chost ariannol o £56m a chost carbon oes gyfan o 3000 tunnell o CO2e, ni fyddai hynny wedi bod yn fforddiadwy nac yn gynaliadwy. Yn ogystal â thynnu llygryddion niweidiol o'r CSO a gwella ansawdd dŵr yr afon, bydd yr ateb yma'n cynnig manteision o ran amwynder a bioamrywiaeth leol hefyd.     Mae hi'n esiampl ragorol o ganolbwyntio ar daclo niwed amgylcheddol yn hytrach na nifer y troeon y mae gorlifoedd storm yn "rhyddhau" yn unig.

Mae ein profiad gyda GlawLif a phrosiectau eraill felly'n dangos bod atebion sy'n seiliedig ar natur yn gallu cyflawni manteision aruthrol a gwell gwerth ar gyfer ein cwsmeriaid a'r amgylchedd yn gyffredinol. Fodd bynnag, maen nhw'n cymryd tipyn o amser i'w datblygu a'u rhoi ar waith. Er eu bod nhw'n gallu darparu gwerth da a gwytnwch yn y tymor hir, maen nhw'n gallu bod yn fwy drud at y cychwyn. Yn ogystal, maen nhw'n aml yn fwy cymhleth, ac mewn rhai achosion, yn cynnwys mwy o ansicrwydd o ran deilliannau. Felly'r demtasiwn i gwmnïau a rheoleiddwyr fel ei gilydd yw troi'n ddiofyn at atebion llwyd traddodiadol. Mae angen osgoi gwneud hyn er mwyn i ni gyflawni ein rhwymedigaethau i gyflawni Sero Net.

Mae yna gyfle gwirioneddol i ddefnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur i gynorthwyo'r gwaith o leihau Ffosfforws, sef y prif reswm pam fod afonydd ACA yng Nghymru'n methu â chyflawni'r safonau angenrheidiol o ran ansawdd dŵr.
Er mwyn mynd ar drywydd atebion sy'n seiliedig ar natur ac atebion cydweithredol, byddwn ni'n parhau â'n treialon pwysig ac yn cynnal trafodaethau gyda'r rheoleiddwyr i ddatblygu canllawiau rheoliadol sy'n cydymffurfio â pholisïau Cymru, ac mewn rhai achosion yn cyd-fynd â'r canllawiau rheoliadol sydd eisoes yn gweithredu yn Lloegr.

Byddwn ni'n cynnal digwyddiad Cyd-gyflawni Gwelliannau i Afonydd ochr yn ochr ag Afonydd Cymru a'r Ymddiriedolaethau Bywyd ar 10 Ebrill, lle bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn traddodi'r prif anerchiad. Y prif amcan yw dod o hyd i brosiectau, lleoliadau ac atebion sy'n seiliedig ar natur y gellir eu rhoi ar waith mewn partneriaeth, a deall beth sy'n hwyluso ac yn rhwystro cydweithio o'r math yma. Byddwn ni'n darparu gwybodaeth ar bum mlynedd nesaf ein buddsoddiad cyfalaf cynlluniedig, ac rydyn ni'n chwilio am syniadau gan amryw o sefydliadau i ddatblygu atebion ymarferol a chanfod sut y gallwn ni gyflawni rhagor ar gyfer yr amgylchedd a ffyrdd o hwyluso adferiad byd natur trwy ein buddsoddiadau.

Yn y tymor hwy, rydyn ni'n disgwyl i atebion sy'n seiliedig ar natur gyfrif am gyfran uwch o lawer o'n cynlluniau buddsoddi wrth i'r dystiolaeth o ran y costau, gwytnwch, buddion, a risgiau o wahanol ddulliau o weithredu ddod yn gryfach.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth yma'n ddefnyddiol i chi, ond os hoffai Aelodau'r Pwyllgor ymweld ag un o'r safleoedd hyn angen rhagor o fanylion, croeso i chi gysylltu i drefnu hynny.

Yn gywir,



**Ian Christie**
**Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr, Cynllunio Asedau a Chyflawni Cyfalaf**

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0195/25

Llŷr Gruffydd
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Ebrill 2025

Annwyl Llŷr,

Diolch i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd am y trafodaethau gwerthfawr yn ystod fy sesiynau ymchwilio craffu cyffredinol ac ymateb i stormydd ar 27 Mawrth. Rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb i'r cwestiynau hynny nad oedd gennym amser ar eu cyfer yn ystod y sesiwn ei hun. Rwyf wedi ateb pob cwestiwn yn ei dro isod.

**Sesiwn graffu gyffredinol**

1. *Pa gamau sy'n cael eu cymryd i atal colli gwrychoedd a gwrychoedd hynafol o ganlyniad i ddatblygu tai?*

Cyfeiriaf y Pwyllgor at Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) 12 sy'n nodi polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio tir, ac sy'n cynnwys fframwaith cadarn ar gyfer gwarchod gwrychoedd, gan gynnwys gwrychoedd hynafol. Mae polisïau cynllunio'n cydnabod pwysigrwydd sylweddol gwrychoedd ar gyfer bioamrywiaeth. Mae PCC yn nodi eu bod yn gynefinoedd cysylltu hanfodol ar gyfer rhwydweithiau ecolegol gwydn, ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at gymeriad tirwedd, diwylliant, treftadaeth, ymdeimlad o le, ansawdd aer, a chymedroli hinsawdd lleol.

Mae'n bwysig bod bioamrywiaeth a gwydnwch yn cael eu hystyried yn gynnar wrth gynnig neu ystyried cynigion datblygu. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau cynllunio fod yn rhagweithiol ac ymgorffori mecanweithiau a pholisïau priodol i amddiffyn rhag colli bioamrywiaeth a sicrhau manteision net i fioamrywiaeth. Mae sicrhau manteision net ar gyfer bioamrywiaeth o fewn cyd-destun PCC yn galw am ymateb ymarferol i amgylchiadau penodol y safle.  Gan weithio drwy'r dull fesul cam (y mae paragraff 6.4.15 yn cyfeirio ato fe), mae gwrychoedd hynafol wedi'u rhestru yn gynefin na ellir ei ddisodli, sy'n golygu y dylid eithrio cynigion a fyddai'n arwain at golli cynefin na ellir ei ddisodli  o chwiliadau safleoedd fel mater o egwyddor, ac y dylid diogelu'r cynefin na ellir ei ddisodli.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran amddiffyn gwrychoedd yn ehangach, mae PCC yn nodi na chaniateir cael gwared ar wrychoedd yn barhaol oni bai y byddai gwneud hynny'n sicrhau manteision sylweddol i'r cyhoeddi – a dylid diffinio'r manteision hynny'n glir. Pan gynigir cael gwared ar wrychoedd yn rhan o ddatblygiad, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddilyn y dull fesul cam, a dylai'r nod o osgoi colli gwrychoedd fod yn brif flaenoriaeth.

2. *Pennodd y Strategaeth Mwy nag Ailgylchu bedwar targed ar gyfer 2025: gostyngiad o 26% yng nghyfanswm y gwastraff, dim gwastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi, gostyngiad o 50% mewn gwastraff bwyd y gellir ei osgoi, a chyfradd ailgylchu o 70%. Faint o'r targedau hyn sy'n debygol o gael eu cyflawni eleni?*

*Gostyngiad o 26% yng nghyfanswm y gwastraff:*

Mae gwybodaeth am lefelau gwastraff yn cael ei chasglu drwy wahanol setiau data ar gyfer y gwahanol ffrydiau gwastraff – cartref, diwydiannol, masnachol, ac adeiladu a dymchwel. Ar gyfer blynyddoedd gwahanol y mae'r data diweddaraf sydd ar gael (2018[1] ar gyfer diwydiannol a masnachol, 2019[2] ar gyfer adeiladu a dymchwel, a 2023–24[3] ar gyfer cartrefi). Felly, mae'n anodd dod o hyd i amcangyfrif cadarn o ostyngiad yn erbyn llinell sylfaen 2006–07 ar draws yr holl ffrydiau gwastraff ar hyn o bryd, a bydd rhagor o ddadansoddi'n cael ei  wneud yn ddiweddarach eleni i roi'r amcangyfrif mwyaf cadarn posibl.  Gyda'r cafeat hwnnw, mae'r data diweddaraf wedi'i gyhoeddi ar gyfer pob llif gwastraff fel a ganlyn:

- Cartref: 1,232 mil o dunelli (2023–24) sy'n ostyngiad o 22%
- Diwydiannol: 1,441 mil o dunelli (2018) sy'n ostyngiad o 24%
- Masnachol: 1,453 mil o dunelli (2018) sy'n ostyngiad o 13%
- Adeiladu a Dymchwel 3,427 mil o dunelli (2019) sy'n ostyngiad o 37%

Felly, mae'r amcangyfrifon data diweddaraf yn dangos cyfanswm gwastraff o 7,552,000 o dunelli yn gyffredinol, gostyngiad cyffredinol o 28.7% o'i gymharu â llinell sylfaen 2006–07 o 10,553,261 o dunelli.

*Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi*

Hefyd bu cynnydd cadarnhaol o ran yr amcan i beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi a tharged 2024–25 o lai na 5% o'r gwastraff a gynhyrchir yng Nghymru yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

Y cyfraddau diweddaraf o wastraff wedi'i anfon at safleoedd tirlenwi yw:

- Gwastraff trefol wedi'i gasglu Awdurdodau Lleol – 0.9% yn 2023–24[4]
- Gwastraff diwydiannol a masnachol – 11% yn 2018[5]
- Gwastraff adeiladu a dymchwel – 6% yn 2019[6]

---

[1] Cyfoeth Naturiol Cymru / Arolwg gwastraff Diwydiannol a Masnachol 2018
[2] Cyfoeth Naturiol Cymru / Arolwg gwastraff adeiladu a dymchwel 2019
[3] Rheoli gwastraff trefol awdurdod lleol:  Ebrill 2023 i Fawrth 2024 | LLYW.CYMRU
[4] Rheoli gwastraff trefol awdurdod lleol:  Ebrill 2023 i Fawrth 2024 | LLYW.CYMRU
[5] https://cdn.naturalresources.wales/691995/survey-of-commercial-and-industrial-waste-generated-in-wales-2018-executive-summary-cymraeg.pdf
[6] 2019 Wales construction and demolition waste arising survey (cyfoethnaturiol.cymru)

O ran gwastraff trefol, mae hyn yn golygu, ers datganoli, fod y gyfran sy'n mynd i safleoedd tirlenwi wedi gostwng o 95% yn 1998 i 0.9%. Gyda chyflwyno rheoliadau ailgylchu yn y gweithle bellach ar waith, rydym yn disgwyl y bydd rhagor o ddeunyddiau ailgylchadwy'n cael eu casglu i'w hailbrosesu, a thrwy hynny leihau'r deunyddiau sy'n mynd i safleoedd tirlenwi ymhellach. Yn ogystal, mae'r rheoliadau'n cynnwys gwaharddiad ar anfon unrhyw wastraff pren i safleoedd tirlenwi. Bydd hynny hefryd yn cyfrannu at gyrraedd y targed hwn.

*Cyfradd ailgylchu o 70 y cant:*
O ran y targed i ailgylchu 70% o wastraff cartrefi, busnesau masnachol a busnesau diwydiannol erbyn 2025, mae'r data diweddaraf ym mhob maes fel a ganlyn:

- Gwastraff a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol 2024–25, 65.7%[7]
- Gwastraff o gartrefi 2022, 56.7%[8]
- Gwastraff diwydiannol 2018, 69%[9]
- Gwastraff masnachol 2018, 64%[10]
- Gwastraff adeiladu a dymchwel 2019, 93%[11]

O ran gwastraff trefol wedi'i gasglu gan awdurdodau lleol, mae ein hawdurdodau lleol yn gweithio'n galed i gyflawni'r targed o 70%. Yn 2023/24 roedd saith awdurdod lleol eisoes yn cyflawni ar 70% neu'n uwch, cyn i'r targed ddod i rym.

Fel y nodwyd mewn gohebiaeth flaenorol, mae amrediad o bethau'n cael eu gwneud i gynyddu cyfraddau ailgylchu ymhellach a gweithio tuag at y targed. Er enghraifft parhau â'r model llwyddiannus o gymorth i Awdurdodau Lleol i'w helpu i wella eu perfformiad, gan gynnwys y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy, cyllid cyfalaf wedi'i dargedu, cyngor ar wella perfformiad a'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth 'Bydd Wych'. Yn fwyaf diweddar, rydym wedi rhoi'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd[12] ar waith, sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithleoedd gadw eu prif ddeunyddiau ailgylchadwy ar wahân er mwyn iddyn nhw allu cael eu casglu ar wahân. Bydd hynny'n cynyddu ac yn gwella ansawdd yr ailgylchu annomestig. Yn ogystal, mae Busnes Cymru wedi cychwyn rhaglen i ddarparu cyngor a chymorth i fusnesau.

*Gostyngiad o 50 y cant mewn gwastraff bwyd y gellir ei osgoi:*

Yn ogystal rydym yn gweithio gyda WRAP ar hyn o bryd, i ddatblygu ffordd o ddadansoddi ac amcangyfrif lefelau gwastraff bwyd a'u cymharu â llinell sylfaen 2007. Rydym yn disgwyl gallu amcangyfrif cyfanswm y gwastraff bwyd pan fydd y data diweddaraf ar gael. Nododd Map Llwybr Gwastraff Bwyd Cymru[13], a gyhoeddwyd gan WRAP yn 2023, gamau gweithredu i gyrraedd targed 2030 ar gyfer gostyngiad o 60% mewn gwastraff bwyd y gellir ei osgoi. Roedd yn cydnabod y byddai cyrraedd y targedau'n heriol, ond mai'r sectorau gyda'r cyfle mwyaf i leihau gwastraff bwyd oedd gwastraff o gartrefi a gweithgynhyrchu. Felly, rydym yn canolbwyntio ar leihau gwastraff bwyd o gartrefi drwy ymgyrchoedd fel Bydd Wych a Gweithredu ar Newid Hinsawdd Cymru, ynghyd â chymorth gan Cyswllt Ffermio,

---

[7] Rheoli gwastraff trefol awdurdod lleol: Ebrill 2023 i Mawrth 2024
[8] https://www.gov.uk/government/statistics/uk-waste-data/uk-statistics-on-waste
[9] https://cdn.naturalresources.wales/media/691995/survey-of-commercial-and-industrial-waste-generated-in-wales-2018-executive-summary-cymraeg.pdf
[10] https://cdn.naturalresources.wales/media/691995/survey-of-commercial-and-industrial-waste-generated-in-wales-2018-executive-summary-cymraeg.pdf
[11] 2019 Wales construction and demolition waste arising survey (cyfoethnaturiol.cymru)
[12] Ailgylchu yn y Gweithle | LLYW. CYMRU
[13] Map Llwybr Gwastraff Bwyd Cymru | WRAP – Y Rhaglen Gweithredu ar Wastraff ac Adnoddau

Busnes Cymru, a FareShare Cymru ar gyfer busnesau i leihau gwastraff yn y gadwyn gyflenwi.

3. *Rydych wedi tynnu sylw at sut y byddai perfformio'n well na'r ail gyllideb garbon yn fuddiol wrth gyflawni'r drydedd gyllideb 'hynod heriol'. Yn seiliedig ar yr amcanestyniadau cyfredol, pa mor debygol yw hyn o  ddigwydd?*

Bydd y Pwyllgor yn gwybod bod Cyllideb Garbon 2 (2021-25) yn gofyn am ostyngiad o 37% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfartaledd. Ni fydd data allyriadau swyddogol ar gyfer 2023 ar gael tan fis Mehefin ac ni fyddwn yn gwybod yn ffurfiol a ydym wedi bodloni'r gyllideb nes bod data 2025 ar gael yn 2027. O ganlyniad, mae rhywfaint o ansicrwydd yn naturiol, ond mae gennym ddangosyddion eraill y gallwn eu defnyddio yn y cyfamser.

Mae data allyriadau 2023 ar gyfer cyfranogwyr Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (pŵer, diwydiant a hedfanaeth) wedi cael ei gyhoeddi. Roedd y cyfranogwyr yn gyfrifol am bron i hanner allyriadau Cymru yn 2021 a 2022, felly mae hyn yn rhoi syniad da inni a fydd allyriadau yn gostwng yn 2023. Roedd allyriadau ar gyfer cyfranogwyr Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn sylweddol is yn 2023 o'u cymharu â 2022 ac felly, hyd yn oed pe bai sectorau eraill yn aros yr un fath, byddem yn gweld gostyngiad sylweddol yn 2023.

O ganlyniad, mae rhagolygon dros dro ar gyfer 2023 yn dangos bod disgwyl i allyriadau ostwng 8% rhwng 2022 a 2023.  Byddai hyn yn golygu gostyngiad o 41% o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen yn 2023. Mae hyn yn awgrymu bod tair blynedd gyntaf allyriadau Cyllideb Garbon 2 (CB2) i raddau helaeth ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed statudol o ostyngiad cyfartalog o 37%.

Serch hynny, mae'n rhaid inni fod yn ofalus. Gall allyriadau cyfranogwyr Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU fod yn eithaf anwadal. Gallant ostwng yn sydyn os yw gosodiad yn cael ei ailwampio neu os oes dirywiad economaidd. Yn yr un modd, gallant godi'n sydyn oherwydd geowleidyddiaeth, cyfleoedd economaidd a hyd yn oed y tywydd, felly mae lefel uchel o ansicrwydd ynghylch rhagfynegi ar gyfer 2024 a 2025. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni gydnabod bod y ffaith bod rhai ffwrneisi chwyth wedi cael eu cau ym Mhort Talbot y llynedd hefyd yn arwain at allyriadau llawer llai yn deillio o gynhyrchu dur.

Gan gymryd yr holl ystyriaethau hyn gyda'i gilydd, er ei bod yn anodd iawn rhagweld beth fydd ein sefyllfa yn 2027, rydym yn disgwyl y byddwn yn bodloni'r  lefel o leihau allyriadau a ddisgwylir yng Nghyllideb Garbon 2.

4. *Mae Cymru wedi gwneud cryn gynnydd tuag at ddatgarboneiddio, ond mae'r cynnydd hwn yn amrywio'n sylweddol rhwng sectorau. Pa sectorau rydych yn disgwyl iddynt  fod yn fwyaf heriol wrth gyflawni'r drydedd gyllideb garbon? Sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r heriau?*

Mae'n bwysig cydnabod bod gan bob sector ei heriau ei hun. Dyma pam mae ein dull gweithredu yn cael ei arwain gan dystiolaeth ynglŷn â ble mae'r cyfleoedd i leihau allyriadau a beth sy'n gweithio – a pham mae'r dull wedi cael ei ymgorffori ar draws y Cabinet cyfan. Ym mhob sector sy'n cynhyrchu allyriadau, mae Ysgrifennydd perthnasol y Cabinet yn gyrru'r camau sydd eu hangen ac yn sicrhau bod gwariant yn cael yr effaith fwyaf wrth gyflawni ein cyllidebau carbon a sicrhau sero net erbyn 2050.

Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor yn gwybod bod camau'n cael eu cymryd gan unigolion, busnesau a'r sector cyhoeddus ehangach. Nid yw sero-net yn rhywbeth a fydd yn cael ei gyflawni drwy weithgareddau'r Llywodraeth yn unig, ac yn gynyddol mae unigolion a sefydliadau ledled y byd yn galw am sero-net.

O safbwynt defnyddwyr, rydym yn gweld unigolion yn prynu pympiau gwres, ceir trydan ac yn gwneud newidiadau i'w diet. Rydym hefyd yn gweld busnes a'r sector cyhoeddus yn defnyddio meini prawf cynaliadwyedd yn eu penderfyniadau busnes.

Rôl allweddol i'r Llywodraeth yw adeiladu ar y diddordeb a'r galw cyhoeddus hwn a dod â phawb gyda ni a sicrhau ein bod yn sicrhau pontio cyfiawn. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol wrth gefnogi a galluogi lleisiau dibynadwy i archwilio, gyda'n cymunedau, y cyfleoedd a'r risgiau wrth drawsnewid i economi carbon isel. Drwy wneud hynny, gallwn nodi'r camau gweithredu a fydd yn manteisio i'r eithaf ar fanteision y newid ac yn lliniaru'r risgiau.

**Sesiwn holi ynghylch ymateb i stormydd**

1. *Pa fecanweithiau sydd ar waith i alluogi swyddogion Llywodraeth Cymru i leisio pryderon wrth CNC, ac a yw'r rhain wedi cael eu defnyddio i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn dilyn stormydd diweddar?*

Mae fy swyddogion yn ymgysylltu â'u cymheiriaid yn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn rheolaidd. Mae gennym hefyd fecanweithiau ffurfiol ar waith; er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd nawdd chwarterol gyda'r Prif Weithredwr dros dro ac Uwch Dîm CNC, ac mae CNC yn aelod o Fwrdd Rhaglen Perygl Llifogydd Llywodraeth Cymru. Mae'r fframweithiau llywodraethu hyn yn caniatáu inni godi a thrafod unrhyw broblemau mewn modd amserol a sicrhau perfformiad ein rhaglen llifogydd.

Mae gennym hefyd fecanweithiau i drafod ag CNC cyn, yn ystod ac ar ôl unrhyw achos o lifogydd. Yn dilyn Stormydd Bert a Darragh ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr, cynhaliais drafodaethau bord gron gydag ymatebwyr allweddol a sefydliadau partner i rannu gwersi a ddysgwyd, ac roedd CNC yn rhan o'r drafodaeth honno.

2. *Mae Fframwaith Canllawiau Ymateb i Lifogydd Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd yn cael ei ddiweddaru 'bob dwy flynedd neu yn dilyn gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau neu ymarferion, ailstrwythuro sefydliadau neu newidiadau i brosesau.' Pam nad yw wedi cael ei ddiweddaru ers 2016, a phryd rydych yn bwriadu diweddaru'r Fframwaith?*

Datblygwyd Fframwaith Ymateb i Lifogydd Cymru mewn partneriaeth ag ymatebwyr brys, ac mae'n rhoi trosolwg o'r cynlluniau a'r gweithdrefnau sy'n parhau i fod ar waith er mwyn paratoi ar gyfer achosion o lifogydd ac ymateb iddynt.

Ar hyn o bryd mae Is-adran Gwydnwch a Diogelwch Gwladol Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o strwythurau llywodraethu gwydnwch Cymru gyfan ac mae'n disgwyl cyhoeddi Fframwaith Gwydnwch Cymru ym mis Mai. Pan fydd wedi cael ei gyhoeddi, bydd fy swyddogion yn ymgysylltu â swyddogion yr Is-adran Gwydnwch a Diogelwch Gwladol, a bydd y Fframwaith Ymateb i Lifogydd yn cael ei adolygu i adlewyrchu unrhyw newidiadau.

3. *Mae eich strategaeth addasu i'r hinsawdd yn dweud y byddwch yn ystyried opsiynau polisi sy'n gysylltiedig â risgiau ac argyfyngau sy'n benodol i'r sector ym maes TGCh a thelathrebu. A ydych yn datblygu polisïau yn y maes hwn, ac a yw effeithiau Storm Darragh wedi effeithio ar eich meddwl yn hyn o beth?*

Mae Llywodraeth y DU yn arwain ar bob mater yn ymwneud â gwydnwch telathrebu, gan gynnwys materion uniongyrchol ac argyfwng a chynllunio mwy hirdymor. Maent wedi sefydlu Grŵp Gwydnwch ac Ymateb Cyfathrebu Electronig (ECRRG) gyda diwydiant telathrebu'r DU i fynd i'r afael â phroblemau sy'n sy'n wynebu'r sector mewn perthynas â ymwneud â gwydnwch Hefyd, mae'r ECRRG yn rheoli'r Cynllun Argyfwng Cenedlaethol ar gyfer Telathrebu, sy'n amlinellu prosesau ar gyfer mynd i’r afael ag argyfyngau, cwsmeriaid â blaenoriaeth a gwasanaethau. Serch hynny, mae telathrebu yn dibynnu ar feysydd datganoledig eraill megis ynni a chynllunio, ac mae Llywodraeth Cymru yn trafod â swyddogion Llywodraeth y DU a'r diwydiant i ddeall y problemau ac ymhelaethu ar effaith digwyddiadau penodol yng Nghymru, megis Storm Darragh. Byddwn yn trafod â Llywodraeth y DU ac Ofcom, y rheoleiddiwr telegyfathrebu, er mwyn sicrhau bod gan Ofcom gylch gwaith ar gyfer gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd ledled y DU, gan gynnwys ymhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig.

Yn y cyfamser, mae Fframwaith Gwydnwch Cymru sydd yn yr arfaeth wedi cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â phartneriaid ar draws y gymuned gwydnwch i ddarparu cyfeiriad strategol clir i'n partneriaid gwydnwch yng Nghymru. Bydd yn cael ei gefnogi gan Gynllun Cyflawni a fydd yn nodi'n glir sut rydym yn bwriadu gwneud newidiadau a sicrhau manteision a buddion diriaethol ar gyfer ein partneriaid a'n cymunedau. Er mwyn sicrhau bod ein dull hirdymor a'n blaenoriaethau cyflawni yn diwallu anghenion ac amgylchiadau Cymru, mae'r Fframwaith wedi'i seilio ar yr egwyddorion craidd canlynol, sydd wedi cael eu cymeradwyo gan Fforwm Gwydnwch Cymru ac sydd wedi cael eu datblygu ar ar y cyd â phartneriaid argyfyngau sifil posibl a'r trydydd sector.

- Cyd-ddealltwriaeth well o risg
- Ffocws ar atal a pharatoi
- Dull cyfunol a symlach o gyflawni
- Dull cymdeithas gyfan o sicrhau gwydnwch
- Dull 'Unwaith i Gymru'
- Ffocws ar optimeiddio effeithlonrwydd

Mae'r egwyddorion craidd hyn yn helpu i fframio ymdrechion cyfunol llywodraeth, ymatebwyr brys a'r sector gwirfoddol i leihau risg ac effaith argyfyngau a heriau o ran tarfu, ac i gynyddu gwydnwch ledled Cymru.

4. *Yn ystod yr ymchwiliad hwn, mae sawl rhanddeiliad wedi dweud wrthym am eu diddordeb mewn archwilio rhagor o ddulliau ar lefel dalgylch a dulliau sy'n seiliedig ar natur i liniaru perygl llifogydd. A ydych yn rhagweld y byddwn yn cefnu ar ddulliau peirianyddol o reoli dŵr yn y dyfodol, ac* ***a fydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn nyraniad adnoddau Llywodraeth Cymru****?*

Bydd bob amser angen atebion peirianneg galed arnom, ond mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl sylweddol y gall dulliau ar lefel dalgylch a dulliau sy'n seiliedig ar natur ei chwarae wrth reoli perygl llifogydd. Rydym yn hyrwyddo Rheoli Llifogydd yn Naturiol (NFM) ac yn cefnogi Awdurdodau Rheoli Risg i weithio ar y cyd â pherchnogion tir a ffermwyr i geisio atebion sy'n seiliedig ar natur sy'n lleihau'r perygl o lifogydd ac yn amddiffyn ac yn gwella ein hamgylchedd naturiol.

Ar hyn o bryd mae gennym ddau gynllun yn ein prif raglen llifogydd sydd yn ystod cam yr achos busnes terfynol: Dalgylch Gwyrfai yn Eryri, Conwy, a Dalgylch Ogwen yng Ngwynedd. Yn flaenorol, mae pedwar cynllun yng Nghaerdydd, Sir Fynwy a Phowys wedi cael eu cynllunio neu eu cwblhau gydag dulliau Rheoli Llifogydd yn Naturiol.

Gyda'r buddsoddiad o £2 miliwn o'r gyllideb llifogydd ar gyfer 2025–2026, byddwn yn cefnogi 23 o brosiectau ledled Cymru. Nod y prosiectau hyn yw gwella'r amgylchedd naturiol a lleihau'r perygl o lifogydd ar gyfer hyd at 2,800 o adeiladau.

5. *A yw'r ffaith mai sefydliadau gwahanol sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar reoli dŵr yn peri unrhyw rwystrau i ddarparu dulliau rheoli dŵr ar lefel dalgylch? A ydych yn awyddus i gyflwyno unrhyw newidiadau yn y maes hwn?*

Bydd y Pwyllgor yn gwybod bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi comisiynu'r adolygiad annibynnol mwyaf helaeth o'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr ers preifateiddio ym mis Hydref. Bydd y Comisiwn Annibynnol, dan arweiniad Syr Jon Cunliffe, yn ystyried tirwedd a pholisïau'r diwydiant sy'n benodol i Gymru, ac mae cwmpas yr adolygiad yn cynnwys y strwythurau llywodraethu o fewn dalgylchoedd dŵr. Rwy'n disgwyl i'r Comisiwn gyflwyno eu canfyddiadau mewn adroddiad ar ddechrau'r haf, a pan fyddaf wedi ystyried eu canfyddiadau, byddaf wedyn yn amlinellu'r camau yr wyf yn bwriadu eu cymryd.

6. *A yw Llywodraeth Cymru yn edrych ar blannu sy'n rhwystro dŵr ac sy'n gwrthsefyll sychder mewn ardaloedd ucheldir, yn enwedig yng ngoleuni'r tanau gwyllt diweddar yng Ngogledd Cymru? Ac a yw Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu asesiad effaith o ganlyniad i'r tanau hyn?*

Mae ein Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd yn nodi y gall effeithiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd effeithio ar gynhyrchiant coedwigaeth. Fel y nodwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 27 Mawrth, mae amodau newidiol yr hinsawdd yn effeithio ar Gymru eisoes, fel y gwelsom yn achos Stormydd Darragh ac Eowyn a chyfres ddiweddar o danau gwyllt. Mae achosion amlach o dywydd eithafol yn peri risgiau, fel sychder, llifogydd a thanau gwyllt. Mae rhywogaethau goresgynnol a newidiadau ym mhatrwm achosion o blâu a chlefydau eisoes yn fygythiad difrifol i’n coetiroedd.

Mae'r risgiau i goedwigaeth, coetir a phriddoedd yn peryglu hefyd ein cynlluniau i sicrhau allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net, oherwydd eu swyddogaeth fel storfeydd carbon naturiol sy'n dal a storio carbon o'r atmosffer. Gall addasu ein dulliau coed-amaethu, yn ogystal â'u gwneud yn fwy gwydn, gefnogi mwy o fioamrywiaeth. Mae'n bwysig bod y sector coedwigaeth yn cynllunio ar gyfer y risgiau a'r cyfleoedd hyn er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y sector yng nghyd-destun newid hinsawdd, yn enwedig o ystyried bod y cylchoedd cynllunio yn gymharol hirdymor.

Agorwyd ein hymgynghoriad ar y blaenoriaethau a'r cynigion ar gyfer Strategaeth Ddiwydiannol Gyntaf Cymru ar gyfer Pren ar 22 Ionawr a daeth i ben ar 16 Ebrill. Yr ail flaenoriaeth a archwiliwyd yw 'Cynyddu gwydnwch yn ein coedwigoedd' ac mae'n cwmpasu pynciau fel hyrwyddo arallgyfeirio ac addasu systemau coedwigaeth i wella gwydnwch i newid yn yr hinsawdd a phlâu a chlefydau. Roedd y ddogfen ymgynghori ar agor ar gyfer ymatebion tan 16 Ebrill.

7. *Pryd bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Fframwaith Gwydnwch Cymru, yn ogystal ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru?*

Bydd ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Llifogydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn cael ei gyhoeddi yn fuan, a bydd Fframwaith Gwydnwch Cymru yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai.

Diolch eto am drafodaeth ddefnyddiol. Edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad canlyniadau ymchwiliad y Pwyllgor i  Ymateb i Stormydd maes o law.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Y Pwyllgor Cyllid

Finance Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Cadeirydd Fforwm y Cadeiryddion

1 Ebrill 2025

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ein hadroddiad ynghylch ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, gwnaethom nifer o argymhellion sy'n ymwneud â gwella'r modd y caiff y gyllideb ei chyflwyno. Gwnaethom hefyd gytuno i ymgynghori â'r Pwyllgorau ynghylch y ddogfennaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i chynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

> *"Casgliad 1. Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd sy'n ymwneud â*
> *chraffu ar y gyllideb cyn Adolygiad o Wariant Cymru a chylch cyllideb 2026-27*
> *i archwilio ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar graffu ar y gyllideb yn y Senedd, er mwyn lliniaru effaith cyfnod craffu wedi'i gwtogi."*

O ganlyniad, wrth fyfyrio ar y profiad o graffu ar y gyllideb eleni, ac wrth geisio gwella'r ddogfennaeth gyllidebol a gaiff ei darparu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27 a thu hwnt, byddwn yn gwerthfawrogi cael barn eich pwyllgor ar y cwestiynau a ganlyn:



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Pa welliannau yr hoffech eu gweld o ran y ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y Gweinidog? Yn eich ymateb, dylech gyfeirio at amseroldeb, ansawdd a defnyddioldeb unrhyw ddogfennaeth a/neu dystiolaeth sydd wedi dod i law.
- Bydd Adolygiad o Wariant y DU, a gaiff ei gyhoeddi ar 11 Mehefin 2025, yn darparu cyllid dangosol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd i ddod. O ystyried hynny, a oes gennych unrhyw farn ar y wybodaeth y byddai ei hangen arnoch o ran yr Adolygiad o Wariant ar gyfer Cymru a fydd yn dilyn, naill ai i ategu dogfennaeth y gyllideb neu fel ymarfer ar wahân?

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn **dydd Gwener 23 Mai 2025**. Yna, bydd eich sylwadau'n cael eu coladu a'u rhoi i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, i'w hystyried cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau'r Gyllideb ar gyfer 2026-27, a gaiff ei harwain gan y Pwyllgor Cyllid ac a gaiff ei chynnal cyn toriad yr haf.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru

17 Ebrill 2025

Annwyl Llŷr

Diolch am eich llythyr at Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, ar ran y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, ynglŷn â'r cais gan Merthyr (South Wales) Ltd am gynllun adfer diwygiedig arfaethedig ar gyfer gwaith glo brig Ffos y Fran.

Mae'r materion ar y safle yn cyffwrdd â nifer o feysydd polisi ond mae'r materion penodol rydych chi'n eu codi yn eich gohebiaeth yn dod o fewn y system gynllunio, felly mae eich gohebiaeth wedi'i throsglwyddo i mi, am ymateb. Byddaf yn ymateb i bob un o'r pwyntiau a godwyd gennych yn eich llythyr yn eu tro, isod.

**1. Yr opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ymyrryd yn yr achos hwn i sicrhau bod lefel briodol o waith adfer yn cael ei wneud.**

Yn y lle cyntaf, cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) yw gorfodi cydymffurfiaeth â'r cynllun y cytunwyd arno.

Roedd y cynllun adfer y cytunwyd arno yn nodi dyddiad cwblhau o 6 Rhagfyr 2024. Yn amlwg, nid yw'r cynllun wedi'i weithredu'n llawn eto. Y sefyllfa bresennol yw bod yn rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol benderfynu a ddylid defnyddio pwerau gorfodi i reoleiddio unrhyw dor rheolaeth gynllunio. Wrth benderfynu a ddylid defnyddio'r pwerau hynny, rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddod i'r casgliad a yw gweithred o'r fath o fudd i'r cyhoedd yn ehangach.

Lle mae tor rheol wedi digwydd, bydd datblygwr yn aml yn cyflwyno cais mewn ymgais i reoleiddio'r tor rheol. Er bod hyn weithiau'n dacteg er mwyn achosi oedi, ar achlysuron eraill mae cais yn galluogi asesiad tryloyw o rinweddau'r datblygiad, yn caniatáu ymgynghoriad

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyhoeddus na fyddai fel arall yn digwydd trwy'r broses orfodi, ac yn caniatáu gosod amodau cynllunio os yw'r datblygiad yn dderbyniol fel arall. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cael cais am gynllun adfer diwygiedig ac mae yn y broses o benderfynu arno.

Gwneir y cais am gynllun adfer diwygiedig o dan adran 73 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Pe bai'n cael ei roi, effaith y caniatâd fyddai rhoi caniatâd cynllunio llawn newydd ar gyfer y cynllun cyfan.

Yr opsiynau sydd ar gael i Weinidogion Cymru ar gyfer ymyrryd yn yr achos yw:

<u>Galw cais Adran 73 i mewn ar gyfer gwneud eu penderfyniad eu hunain.</u>

Mae cais i alw'r cais cynllunio i mewn yn cael ei ystyried a bydd ymateb iddo maes o law. Yn y cyfamser, dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol barhau i brosesu'r cais. Bydd gwaith yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar yr achos yn llywio'r broses o ystyried y cais i alw i mewn.

<u>Defnyddio pwerau gorfodi wrth gefn i orfodi'r datblygwr i gwblhau'r cynllun adfer sydd eisoes wedi'i gymeradwyo.</u>

Mae Gweinidogion Cymru wedi cael ceisiadau i ddefnyddio eu pwerau gorfodi wrth gefn o dan Adran 182 o Ddeddf 1990. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau strategol Llywodraeth Cymru ar gynllunio defnydd tir yng Nghymru. Mae paragraff 1.32 Polisi Cynllunio Cymru yn nodi:

> *"Ar y cyfan, mae'n well i gynigion datblygu gael eu penderfynu'n lleol gan ACLl sy'n adnabod eu hardal, ei hanghenion a'r sensitifrwydd cynllunio. Nid yw Gweinidogion Cymru yn ymyrryd ag awdurdodaeth ACLl oni bai bod angen gwneud hynny."*

Mae paragraff 1.36 Polisi Cynllunio Cymru yn trafod defnyddio pwerau wrth gefn Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn materion y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w hystyried yn y lle cyntaf, ac yn nodi:

> *"Byddai ymyrraeth o'r fath yn gwrthdroi dyfarniad awdurdod cynllunio lleol ar fater sy'n gyfrifoldeb iddo ef yn y lle cyntaf, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellid cyfiawnhau hynny. Yr egwyddor gyffredinol yw y dylai camau o'r fath gael eu hystyried dim ond lle bernir bod y penderfyniad gwreiddiol yn gwbl anghywir, ac y byddai niwed yn cael ei wneud i fudd ehangach y cyhoedd."*

Mae swyddogion yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cynghori swyddogion Llywodraeth Cymru bod peth gweithgarwch adfer yn parhau ar y safle, a bod yr awdurdod wedi rhyddhau rhywfaint o arian o gyfrif ysgrow y bond adfer i dalu am y gweithgarwch hwn. Rwy'n deall bod nifer o ffactorau, gan gynnwys amodau amgylcheddol a thymhorol yn dylanwadau ar hyd a lled y gwaith cyfredol. Byddai angen i unrhyw ddefnydd o bwerau gorfodi mewn perthynas â methu â chydymffurfio â'r cynllun adfer y cytunwyd arno, naill ai gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu gan Weinidogion Cymru, ddangos methiant gan y datblygwr i gymryd camau priodol i weithredu'r cynllun y tu hwnt i'r hyn sy'n digwydd eisoes. Mae hwn yn benderfyniad y mae angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ei bwyso a'i fesur yn ofalus yn y lle cyntaf.

<u>Ystyried apêl gynllunio.</u>

Mae'n parhau i fod yn bosibl i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wrthod caniatâd ar gyfer y cais cynllunio Adran 73, ac i fynd ar drywydd camau gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth â'r cynllun adfer y cytunwyd arno. Byddai gan y datblygwr hawl i apelio i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r ddau benderfyniad gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

2. **Y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau'r canlyniad gorau posibl i drigolion lleol.**

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ffurfio Gweithgor Technegol (TWG) sy'n cael ei fynychu a'i gefnogi gan swyddogion cynllunio a diogelwch tomenni glo Llywodraeth Cymru, yn ogystal â Chyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Gweithgor Technegol yn gweithio i sicrhau bod ei aelodau a'r datblygwr yn gallu ymateb i bryderon mewn perthynas â'r posibilrwydd o lifogydd, llygredd ac effaith tir halogedig, yn enwedig mewn perthynas â lefel y dŵr yn y gwagle.

Ar wahân i'r Gweithgor Technegol, mae rhanddeiliaid â chyfrifoldebau rheoleiddio, gan gynnwys yr Awdurdod Cynllunio Lleol a swyddogion Llywodraeth Cymru, yn rhannu gwybodaeth i sicrhau bod dull cydweithredol yn cael ei gymryd o safbwynt defnyddio pwerau rheoleiddio, os oes angen.

3. **A yw Llywodraeth Cymru wedi asesu capasiti ariannol Merthyr (South Wales) Ltd i gyflawni'r gwaith adfer y cytunwyd arno'n wreiddiol.**

Cyflwynodd Merthyr (South Wales) Ltd gyfrifon llawn hyd at 31 Rhagfyr 2023 gyda Thŷ'r Cwmnïau, ar 14 Mawrth 2025. Mae'r cyfrifon ar gael yn:https://find-and-update.company-information.service.gov.uk/company/04261274/filing-history Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys darpariaeth i dalu am gostau adfer sy'n gysylltiedig â chynllun adfer Ffos y Fran.

Trwy'r cyfrifon, mae cyfarwyddwr y cwmni, Mr D Lewis, wedi dweud mai'r ddarpariaeth adfer yw'r amcangyfrif gorau gan y rheolwyr o'r llif arian a ddisgwylir er mwyn adfer y pwll yn unol â'r caniatâd cynllunio. Nid oes pwerau gan Lywodraeth Cymru o dan gyfraith cwmnïau i ymchwilio i'r datganiad hwnnw na'i herio. Rydym yn ymwybodol, o edrych ar y cyfrifon bod y rhan fwyaf o'r cronfeydd adfer a glustnodwyd wedi'u benthyg i gwmnïau grŵp eraill, ond yn nodi honiad y cyfarwyddwr y gellir adennill y balans. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi cynnal asesiad o allu ariannol y cwmni y tu hwnt i ystyried eu cyfrifon cyhoeddedig.

Mae'r wybodaeth a gyflwynir uchod yn grynodeb ffeithiol o'r amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cynllun adfer diwygiedig arfaethedig, a chamau gorfodi posibl. Gan fod y materion hyn yn cael eu hystyried yn ffurfiol gan Weinidogion Cymru, gellid ystyried unrhyw sylwadau ar rinweddau'r achos yn niweidiol i'r mater, gan adael y penderfyniad dilynol yn agored i adolygiad barnwrol. Gobeithio y byddwch chi'n deall fy mod, o ganlyniad i hynny, wedi osgoi gwneud sylwadau ar rinweddau'r mater.

Yn gywir

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

PLEASE LEAVE BLANK

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS,
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

17 Ebrill 2025

Annwyl Huw,

Dull o ystyried Bil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Deallaf fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn y Senedd ym mis Mehefin 2025. O ystyried pwnc y Bil, rhagwelwn y caiff ei gyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor) ar gyfer craffu arno.

Efallai eich bod yn gwybod bod y Pwyllgor yn craffu ar ddau Fil ar hyn o bryd, sef: Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) a Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Mae'n hanfodol ein bod yn gallu rheoli ein gwaith craffu ar filiau yn effeithiol dros y misoedd nesaf. Am y rheswm hwnnw, rydym yn awgrymu dull gweithredu creadigol mewn cysylltiad â Bil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru).

Yn amodol ar gytundeb y Senedd ar egwyddorion cyffredinol Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), bydd gwaith craffu yng Nghyfnod 2 yn dechrau yn nhymor yr hydref. Rydym yn awyddus i leihau'r gorgyffwrdd rhwng gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) a chraffu Cyfnod 2 ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Yr hyn y byddem yn ei ddewis yn bendant, felly, fyddai cynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid allanol ar Fil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) cyn diwedd tymor yr haf. Fodd bynnag, anfantais y cynnig hwn yw y bydd, yn ymarferol, yn lleihau'n sylweddol yr amser sydd ar gael i randdeiliaid allweddol baratoi tystiolaeth ysgrifenedig cyn eu sesiynau tystiolaeth lafar yn ôl eu trefn.

Mae disgwyl mawr am Fil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Ymhellach, yn seiliedig ar eich honiad y bydd y Bil yn un o'r "darnau o ddeddfwriaeth mwyaf

arwyddocaol y bydd y Senedd hon wedi'u gweld", rydym yn rhagdybio y bydd yn hirfaith ac yn gymhleth. Mae'n hanfodol, felly, rhoi digon o amser i randdeiliaid allanol baratoi i roi tystiolaeth. I'r perwyl hwn, rydym o'r farn y byddai'n fuddiol i Fil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) a deunyddiau cysylltiedig, fel y Memorandwm Esboniadol, gael eu cyhoeddi ar ffurf drafft ym mis Mai, cyn cyflwyno'r Bil. Byddai hyn yn rhoi cyfle i randdeiliaid allweddol ystyried y cynigion yn y Bil drafft yn gynnar yn y broses. Byddwch yn cofio fod dull tebyg wedi'i fabwysiadu ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), er bod hynny am reswm gwahanol, h.y. i alluogi'r Pwyllgor i gymryd tystiolaeth ac adrodd ar y Bil drafft yn absenoldeb gwaith craffu yng Nghyfnod 1.

Rwy'n siŵr y gallwch werthfawrogi bod y Pwyllgor yn canfod ei hun mewn sefyllfa anodd, yn gorfod craffu ar ddau fil ar yr un pryd, a disgwylir trydydd Bil yn fuan. Ni fyddem, wrth gwrs, am i'n dull gweithredu arfaethedig osod cynsail a fyddai'n arwain at lai o amser ar gael i Bwyllgorau'r Senedd gynnal gwaith craffu ar filiau. Fodd bynnag, mae'r rhain yn amgylchiadau eithriadol ac mae angen dull gweithredu creadigol gan Lywodraeth Cymru. Os na allwch ystyried y cynnig hwn, mae'n debygol y bydd angen i'r Pwyllgor ofyn am ragor o amser ar gyfer craffu yng Nghyfnod 1 ar Fil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) maes o law. Gofynnwn i chi ystyried ein dull gweithredu arfaethedig cyn gynted â phosibl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/1104/25

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Ebrill 2025

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Ebrill ynglŷn â dull y Pwyllgor o ystyried Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru).

Rwy'n gwerthfawrogi'r llwyth gwaith deddfwriaethol trwm sydd gan y Pwyllgor ar hyn o bryd, gan orfod craffu ar y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) a'r Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) ar yr un pryd, gyda thrydydd Bil i ddod yn fuan. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ein bwriad i wneud defnydd llawn o'r amser sydd ar gael i gyflwyno deddfwriaeth newydd y tymor Senedd hwn, drwy gyflwyno nifer o Filiau ym mlwyddyn olaf y Senedd yn ystod y Datganiad Deddfwriaethol blynyddol. Felly, rwy'n awyddus i weithio gyda'r Pwyllgor i sicrhau eich bod yn gallu cefnogi'r amserlen arfaethedig ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), gan fod oedi yn peryglu senario lle bydd tagfa o sawl Bil yn cyrraedd y camau olaf yn agos at ei gilydd ar ddiwedd tymor y Senedd.

Rwyf wedi atodi yn gyfrinachol copi dwyieithog o'r Bil drafft a chopi Saesneg yn unig o'r Memorandwm Esboniadol drafft, i roi cyfle i aelodau'r Pwyllgor weld cwmpas a chyfeiriad arfaethedig y Bil cyn ei gyflwyno'n ffurfiol. Nodwch nad fersiwn derfynol yw hon, ac mae'n bosibl y gallai fod newidiadau yn cael eu gwneud fel sy'n ofynnol gan broses Penderfyniad y Llywydd cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Senedd. Gobeithio y bydd hyn yn caniatáu trafodaeth ystyrlon ar yr amserlen arfaethedig gyda'r Pwyllgor Busnes, gan adlewyrchu maint, cwmpas a chymhlethdod y ddeddfwriaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn hefyd yn hapus i rannu’n gyfrinachol copi dwyieithog o'r Bil drafft a chopi Saesneg yn unig o'r Memorandwm Esboniadol drafft gyda’r rhanddeiliaid allweddol – gyda cafeatau priodol a rhesymwaith dros rannu'r dogfennau gyda nhw – er mwyn rhoi cyfle iddynt ystyried yn gynnar y cynigion yn y Bil drafft, i lywio eu tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig. Byddwn yn falch o weithio gyda'r Pwyllgor i gytuno pa sefydliadau y dylid cael golwg ymlaen llaw o’r dogfennau.

Fel y nodwyd yn eich llythyr, mae'r rhain yn amgylchiadau eithriadol sy'n gofyn am ymagwedd greadigol, ac ni fyddem am i hyn osod cynsail.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

—

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS,
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

1 Mai 2025

Annwyl Huw,

Dull o ystyried Bil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 30 Ebrill, ynghylch dull y Pwyllgor ar gyfer ystyried Bil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) (y Bil) sydd ar ddod, ac am rannu drafft o'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol (y Memorandwm) â ni.

Byddem yn falch o dderbyn eich cynnig i rannu, o dan amodau cyfrinachedd, copi dwyieithog o'r Bil drafft a chopi Saesneg yn unig o'r Memorandwm Esboniadol â rhanddeiliaid allweddol. Hoffem egluro nad yw hyn yn amharu ar unrhyw ystyriaeth ddilynol gan y Pwyllgor o'r amserlen graffu arfaethedig.

Rwyf wedi gofyn i'r tîm Clercio gysylltu â'ch swyddogion gyda rhestr dros dro o randdeiliaid allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o fod am gael tystiolaeth lafar ganddynt i lywio ei waith craffu ar y Bil.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

Dŵr Cymru Welsh Water

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

By email: seneddclimate@senedd.wales

29th April 2025

Dear Chair,

I am writing to you in your capacity as Chair of the Senedd's Climate Change, Environment and Infrastructure Committee to inform you that I have made the very difficult decision to retire in Spring 2026 as Chief Executive of Dŵr Cymru.

Now is the right time – at the start of the current investment period and before we start the next price review preparations - to begin the process of searching for my successor. It is never an easy decision to make, but as has been the case with previous CEOs here, there is a period in the AMP cycle where a decision is needed on whether to stay on for another 5-year cycle or to hand over the reins to give someone else enough time to lead the company in preparation of the next price review period.

Having had the privilege of working here since I left school and joining the company as an apprentice, it has been an immense privilege to lead Dŵr Cymru over the last five years through some of the most turbulent – and also the most rewarding - periods the company has seen. Despite the many challenges we have faced, the way in which colleagues across the business have responded has been nothing short of inspirational and we look forward to unprecedented levels of investment over the next five years while also supporting our vulnerable customers.

It is as a result of some of those challenges that we have had the opportunity to give evidence to your committee, answer those important questions and address concerns. I want to thank you personally for those opportunities and for all the work you, the committee members and the clerks do on the important topic of our water and wastewater infrastructure in Wales.

I have been immensely grateful for the support and constructive challenge the committee has given us over the years, and I sincerely hope that our constructive engagement with the committee will continue under the next Chief Executive's leadership too.

Thank you for giving this matter your consideration. If you'd like to discuss this further at any time, please do not hesitate to get in touch.

Yours sincerely,

Peter Perry
Chief Executive
Dŵr Cymru

We're not-for-profit. Every single penny we make goes back into looking after your water and environment. You can contact us in Welsh or English.

Rydym yn gwmni nid-er-elw. Mae pob ceiniog a wnawn yn mynd i ofalu am eich dŵr a'ch amgylchedd. Cysylltwch a ni yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Dŵr Cymru Cyf. (No./Rhif 2366777)
A limited Company registered in Wales:
Cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestu yng Nghymru:
Linea, Fortran Road, St Mellons, Cardiff, CF3 0LT

Annwyl Gadeirydd,

Ysgrifennaf atoch yn eich rhinwedd chi fel Cadeirydd Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd i'ch hysbysu fy mod wedi gwneud y penderfyniad anodd iawn i ymddeol yng Ngwanwyn 2026 fel Prif Weithredwr Dŵr Cymru.

Nawr yw'r amser iawn - ar ddechrau'r cyfnod buddsoddi presennol a chyn i ni ddechrau'r paratoadau adolygu prisiau nesaf - i ddechrau'r broses o chwilio am fy olynydd. Nid yw byth yn benderfyniad hawdd i'w wneud, ond fel sydd wedi bod yn achos Prif Swyddog Gweithredol blaenorol yma, mae yna gyfnod yn y cylch AMP lle mae angen penderfyniad ynghylch a ddylid aros am gylch 5 mlynedd arall neu i drosglwyddo'r awenau i roi digon o amser i rywun arall arwain y cwmni wrth baratoi ar gyfer y cyfnod adolygu prisiau nesaf.

Ar ôl cael y fraint o weithio yma ers i mi adael yr ysgol ac ymuno â'r cwmni fel prentis, mae wedi bod yn fraint enfawr arwain Dŵr Cymru dros y pum mlynedd diwethaf trwy rai o'r cyfnodau mwyaf cythryblus – a hefyd y cyfnodau mwyaf gwerth chweil – y mae'r cwmni wedi'u gweld. Er gwaethaf yr heriau niferus yr ydym wedi'u hwynebu, mae'r ffordd y mae cydweithwyr ar draws y busnes wedi ymateb wedi bod yn ddim llai nag ysbrydoledig ac rydym yn edrych ymlaen am lefel uwch o fuddsoddiad dros y bum mlynedd nesaf tra'n bod ni yn rhoi cymorth i gwsmeriaid bregus.

O ganlyniad i rai o'r heriau hynny rydym wedi cael cyfle i roi tystiolaeth i'ch pwyllgor, ateb y cwestiynau pwysig hynny a mynd i'r afael â phryderon. Hoffwn ddiolch yn bersonol i chi am y cyfleoedd hynny ac am yr holl waith rydych chi, aelodau'r pwyllgor a'r clercod yn ei wneud ar bwnc pwysig ein seilwaith dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru.

Rwyf wedi bod yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth a'r her adeiladol y mae'r pwyllgor wedi'i roi i ni dros y blynyddoedd, ac rwy'n gobeithio'n ddiffuant y bydd ein hymgysylltiad adeiladol â'r pwyllgor yn parhau o dan arweinyddiaeth y Prif Weithredwr nesaf hefyd.

Diolch am roi ystyriaeth i'r mater hwn. Os hoffech drafod hyn ymhellach ar unrhyw adeg, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Yn gywir,

Peter Perry

Prif Weithredwr
Dŵr Cymru

# Eitem 3.11

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**
Welsh Parliament,
Cardiff Bay,
Cardiff
CF99 1SN

15 April
**By email**

Dear Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee,

The Advertising Standards Authority (ASA) will be in Cardiff on Wednesday 21 and Thursday 22 May. We are keen to meet with you to learn more about your priorities and how and where that overlaps with our work.

The ASA is the UK's independent regulator of advertising by legitimate businesses across all media. We work closely with politicians as well as the ad industry, consumer groups and civil society organisations to make sure that people and businesses are protected from irresponsible advertising.

Last year, the ASA received 1,366 complaints from people in Wales. We are keen to use our visit to understand the key advertising issues people and businesses are facing in Wales. We would also like to brief you on the role and remit of the ASA in relation to the Committee's work and how we can work together to tackle ad related harms in Wales.

We would welcome the opportunity to discuss any issues you might wish to raise around advertising or ad regulation as well as the consumer protection landscape in Wales. My colleague, Grace Curley (gracec@asa.org.uk) can help to arrange a meeting.

Yours sincerely

**Guy Parker**
Chief Executive, ASA

Legal, decent, honest and truthful

**Chair** The Rt Hon the Baroness Morgan of Cotes **Chief Executive** Guy Parker
**ASA Council (Broadcast)** Matt Barwell, Murphy Cobbing, Elizabeth Gordon, Alison Hastings, Claire Hilton, Mark Howe, Rotha Johnston, Richard Lloyd, Kirsten Miller, Rebecca Rumbul, Krystle Sargent and Monisha Shah

The Advertising Standards Authority (Broadcast) Limited, registered in England No 05130991, Castle House, 37-45 Paul Street, London EC2A 4LS

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our Ref: MA/RE/0967/25

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd

01 Mai 2025

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich llythyr mewn perthynas ag adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Data (Defnydd a Mynediad) a osodwyd ar 19 Mawrth 2025.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu hadroddiad. Rwy'n cydnabod y casgliad y daeth y Pwyllgor iddo mewn perthynas â Rhan 3 o'r Bil ar y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol (NUAR) ac yn croesawu ei gymeradwyaeth o safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

Rwy'n falch o gadarnhau o ganlyniad i drafodaethau cadarnhaol â Llywodraeth y DU, cyflwynwyd gwelliannau i gymalau 56, 57(3), 57(4), a 57(9) yn Rhan 3 o'r Bil ar 25 Mawrth 2025. Fel y nodir ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3 a osodwyd ar y Bil ar 3 Ebrill 2025, mae'r gwelliannau hyn wedi darparu'r mesurau diogelu cyfansoddiadol angenrheidiol a byddant yn sicrhau bod buddiannau datganoledig yn cael eu diogelu wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth bellach sy'n ymwneud â chreu'r NUAR. O ganlyniad, rwyf wedi argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r Bil a rhoi ei chydsyniad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am sicrwydd yr ymgynghorwyd â CLlLC ar y cynigion a'u heffaith bosibl yng Nghymru. Mae CLlLC wedi cwrdd â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i drafod NUAR a bydd yr ymgysylltu hwn yn parhau yn rheolaidd wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Ar yr un pryd, ymgysylltwyd yn rheolaidd ag Awdurdodau Lleol drwy gydol proses ddatblygu NUAR ers i'r cam adeiladu ddechrau yn 2021.

Yn gywir

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon